

# Lle Cyfartal

## Canllaw ar arfer gorau i ddarparwyr y celfyddydau am faterion anabledd


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

YN GADARN O BLAID · POBL ANABL

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch â ni yn:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Ffôn: 0845 8734 900
(pris galwad lleol, mae pris galwadau ffôn poced yn amrywio)

Ffacs: 029 2044 1400

SMS: 07797800504 (codir tâl safonol rhwydwaith yr anfonwr am negeseuon)

E-bost: gwybodaeth@celfcymru.org.uk

Gwefan: www.celfcymru.org

Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn Braille a fformatau eraill a byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg.

Darperir yr holl ffotograffau gan Gelfyddydau Anabledd Cymru.

Ysgrifennwyd gan Maggie Hampton gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cyhoeddwyd yn gyntaf ym Mawrth 2008
Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf yn Chwefror 2015

# Cynnwys


## Rhagair 3

## Cefndir i faterion anabledd
Deddf Cydraddoldeb 2010 5
Cymdeithas a phobl anabl 18
Iaith ac anabledd 24
Beth yw Celfyddydau i Bobl Anabl? 28

## Llunio Cynllun Gweithredu
Cyflwyniad i lunio cynllun gweithredu 31
Gweithio mewn partneriaeth â phobl anabl 34
Ymgynghori â phobl anabl ac ymgysylltu hwy 36
Gweithio gyda chyflogeion ac artistiaid anabl 39
Rhaglennu gwaith wedi'u harwain gan bobl anabl 42
Datblygu cynulleidfaoedd byddar 45
Gweithdai hygyrch 49
Gwneud gwelliannau i fynediad ffisegol 50
Cynorthwywyr Personol / Gweithwyr Mynediad 52

## Cymorth cyfathrebu
Disgrifiadau clywedol 57
Dehonglwyr iaith arwyddion a gwefuslefarwyr 59
Teipio ar y pryd 64
Theatr gydag isdeitlau 67

## Gwybodaeth ategol
Cyfleusterau mynediad cyffredin 69
Cyhoeddusrwydd a gwybodaeth wedi'i hargraffu 72
Gwefannau 75
Polisi prisio ar gyfer consesiynau 76
Hyfforddiant 77
Monitro a gwerthuso 80
Sefydliadau i bobl anabl 81
Fforymau celfyddydol i bobl anabl 83



Leila Bebb, Wythnos Hyfforddiant a Datblygu, Yr Ysgol Ddrama Anarferol

# Rhagair


Un o brif amcanion Cyngor Celfyddydau Cymru yw sicrhau bod holl bobl Cymru yn cael cyfleoedd a phrofiadau i gyfranogi yn y celfyddydau. Rhan hanfodol o hyn yw sicrhau bod pobl anabl yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i fwynhau'r celfyddydau yng Nghymru fel cynulleidfa, cyfranogwyr a chyflogeion.

Ers cyhoeddi ei strategaeth gyntaf ar y Celfyddydau ac Anabledd yn 1995, mae Cyngor y Celfyddydau, mewn partneriaeth â'r sectorau celfyddydau ac anabledd, wedi gwneud cynnydd gwirioneddol tuag at gyflawni'r nod hwn. Mae gwaith rhagorol yn mynd rhagddo, a rhagor o gyfleoedd i artistiaid anabl ddatblygu eu crefft ac i bobl anabl fwynhau gweithgareddau celfyddydol o'u dewis. Mae gweithredu Strategaeth Cyfalaf Cyngor y Celfyddydau wedi galluogi nifer o ganolfannau ledled Cymru i wella mynediad a chydymffurfio â'r Deddf Cydraddoldeb 2010 .

Nod y canllaw hwn yw ein galluogi i adeiladu ar y llwyddiannau hyn drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor i sefydliadau celfyddydol a darparwyr celfyddydau am y camau ymarferol y gellir eu cymryd i chwalu'r rhwystrau y mae pobl anabl yn parhau i'w hwynebu pan fyddant yn ceisio mwynhau'r celfyddydau yng Nghymru.

Gobeithiwn y bydd hwn yn offeryn defnyddiol i helpu i atal gwahaniaethu a gwella ansawdd mynediad i'r celfyddydau i bawb.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydnabod cefnogaeth Celfyddydau Anabledd Cymru tuag at y broses o greu'r canllawiau hyn.





Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru



Yr Ysgol Ddrama Anarferol – Wythnos Sgiliau

# Cefndir i faterion anabledd

## Deddf Cydraddoldeb 2010 Gorolwg Cryno am Faterion Anabledd

### Cyflwyniad

Yn Hydref 2010, daeth y Ddeddf Cydraddoldeb yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn gwahardd gwahaniaethu yn erbyn pobl â'r nodweddion gwarchodedig a bennir yn adran 4 o'r Ddeddf. Anabledd yw un o'r nodweddion gwarchodedig a bennir.

Mae'r Ddeddf yn tynnu holl feysydd y ddeddfwriaeth gwrth-wahaniaethu ynghyd, ac yn disodli'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a meysydd eraill o'r gyfraith cydraddoldeb.

Mae gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y canlynol yn erbyn y gyfraith:

- oedran
- eu bod, neu eu bod yn troi'n berson trawsrywiol
- eu bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- eu bod yn feichiog neu fod plentyn ganddynt
- anabledd
- hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, neu darddiad ethnig neu genedlaethol
- crefydd, credo neu ddiffyg crefydd/credo
- rhyw
- cyfeiriadaeth rywiol

Gelwir y rhain yn 'nodweddion gwarchodedig'. Mae'r bennod hon yn ymwneud ag anabledd, ond gellir cael gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig eraill yng Nghanllawiau Gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth ewch i wefan y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** sef www.equalityhumanrights.com

NEU

Cysylltwch â'r **Gwasanaeth Cynghori ar Gydraddoldeb**

Ffôn: 0808 800 0082 Ffôn testun: 0808 800 0084

Gwefan: //www.equalityadvisoryservice.com/

Post: FREEPOST Equality Advisory Support Service FPN4431



Prometheus Dance Group (llun: Dewi Jones)

# Rhan 1: Y Cysyniad o Anabledd

## Beth yw Anabledd?

### Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio anabledd fel a ganlyn:

"Nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hir-dymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol pob dydd".

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r ymadrodd **'nam corfforol'** yn cynnwys namau synhwyraidd ac o ran symudedd, ac anhwylderau fel canser, HIV ac AIDS. Mae **'nam meddyliol'** yn cwmpasu holl gwmpas anableddau dysgu, seiciatrig a ffisiolegol.

Er mwyn cael eich ystyried yn berson anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, rhaid i'r nam fod ag effaith andwyol sylweddol a thymor hir.

"Rhaid i unigolyn fod â nam sy'n cyfyngu ar, yn atal, neu'n llesteirio fel arall eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol pob dydd."

Gweithgaredd arferol pob dydd yw un sy'n arferol i'r rhan fwyaf o bobl, ac sy'n cael ei gyflawni gan y rhan fwyaf o bobl yn ddyddiol neu'n gyson ac yn weddol reolaidd.

Nid yw'r ddeddf yn gyfarwyddol, ond gallai cyfyngiadau'r unigolion ymwneud â:

- Symud
- Medrusrwydd corfforol
- Cyd-symud corfforol
- Hunanreolaeth
- Y gallu i godi, cario neu symud pethau pob dydd
- Llafaredd, clyw neu olwg
- Cof neu'r gallu i ganolbwyntio, dysgu neu ddeall
- Canfyddiad o'r risg o beryglon corfforol

Effaith andwyol **"sylweddol"** yw un sy'n "fwy nag un dibwys neu ddinod", sy'n mynd y tu hwnt i'r gwahaniaethau arferol mewn gallu sy' bodoli rhwng pobl.

Mae effaith andwyol yn un **"hirdymor"** os yw:

- Hi wedi para o leiaf 12 mis
- Hi'n debygol o bara o leiaf 12 mis
- Hi'n debygol o bara am weddill oes y person o dan sylw

### Mae rhai anhwylderau'n cael eu trin fel anabledd yn awtomatig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- canser
- heintiad HIV
- sglerosis ymledol
- anffurfiad difrifol
- dallineb ardystiedig, nam difrifol ar y golwg, nam ar y golwg neu fod yn rhannol ddall

Os oes gennych un o'r anhwylderau hyn a'ch bod chi'n dioddef gwahaniaethu oherwydd hynny, cewch wneud hawliad am wahaniaethu anghyfreithlon.

### Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cwmpasu'r bobl ganlynol hefyd:

- Pobl namau anwadal neu gylchol
- Pobl ag anffurfiadau difrifol

### Mae'r bobl ganlynol yn dod o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth newydd hefyd:

- Pobl a fu ag un o'r namau sy'n bodloni'r meini prawf uchod rhyw bryd yn y gorffennol
- Pobl sy'n agos at berson anabl, fel partner, rhiant neu ofalwr
- Pobl y canfyddir/y canfuwyd fod ganddynt anabledd ar gam.

### Nid yw'n cwmpasu'r bobl ganlynol:

- Pobl nad ydynt yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf uchod
- Pobl sy'n cynnau tanau
- Pobl â thatŵs neu sydd wedi tyllu eu cyrff
- Pobl sy'n gaeth i alcohol neu gyffuriau





## Part 2: Cyflogaeth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl anabl rhag gwahaniaethu yn y gweithle.

Mae'r rhan yma o'r Ddeddf yn berthnasol i unrhyw sefydliad sy'n cyflogi staff, dim ots sawl person y mae'r sefydliad yn eu cyflogi.

- Rhaid i gyflogwyr gyflawni addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer cyflogeion anabl.
- Amddiffynnir cyflogeion anabl rhag aflonyddwch yn y gwaith.
- Rhaid i gyflogwyr gyflawni addasiadau rhesymol er mwyn darparu ar gyfer gweithiwr anabl.
- Dylai fod gan gyflogwyr bolisïau i atal gwahaniaethu.
- Ni chaniateir dewis dileu swydd person yn unswydd am eu bod yn anabl. Rhaid i'r broses ddethol ar gyfer dileu swyddi fod yn deg ac yn gytbwys i bawb.
- Ni chaiff cyflogwr orfodi cyflogai i ymddeol os daw'n anabl.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn mynnu bod cyflogwr yn ystyried anghenion darpar gyflogai neu gyflogai cyfredol, felly dylai pa bynnag fesurau a roddir ar waith ganolbwyntio ar ofynion yr unigolyn o dan sylw.

Os bydd person anabl yn gwneud cais am swydd, neu os daw cyflogai yn anabl, rhaid i'r cyflogwr ystyried cyflawni addasiadau rhesymol i'r gweithle neu i delerau'r gyflogaeth.  Gallai addasiadau o'r fath gynnwys:

- Addasu'r gweithle
- Ailddyrannu dyletswyddau
- Newid oriau gwaith
- Caniatáu absenoldeb ar gyfer triniaeth
- Trosglwyddo i swydd fwy priodol
- Trosglwyddo i weithle gwahanol
- Darparu cymorth personol (e.e. darllenydd) a / neu offer (e.e. cyflawni addasiadau i offer cyfrifiadurol)
- Addasu offer a llyfrynnau cyfarwyddo
- Darparu hyfforddiant a/neu ailhyfforddi
- Darparu goruchwyliaeth briodol

Mae gwahaniaethu'n digwydd pan fo person anabl yn cael ei drin yn llai ffafriol na rhywun arall, oni bai y gellir cyfiawnhau'r driniaeth honno. Gellir cyfiawnhau triniaeth sy'n llai ffafriol os oes gan y cyflogwr "reswm perthnasol a sylweddol" na ellir ei "oresgyn neu ei wneud yn llai sylweddol trwy wneud addasiad rhesymol".

Cyfrifoldeb y cyflogwr yw penderfynu a yw'r mesurau yn:

- Effeithiol ac yn ymarferol
- Cost-effeithiol
- Fforddiadwy
- Amodol ar gynlluniau grant
- Angenrheidiol oherwydd y math o nam neu anhwylder



Birds, Yr Ysgol Ddrama Anarferol

# Rhan 3: Mynediad at Nwyddau, Gwasanaethau a Chyfleusterau

## Cyflwyniad

Mae dyletswydd ar ddarparydd gwasanaethau fod yn rhagweithiol. Ni ddylai aros i sefyllfa godi, ond yn hytrach dylai rhag-weld beth y gallai fod ei angen ar berson anabl.

Mae dyletswydd ar ddarparydd gwasanaeth gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb, dim ots pa fath o wasanaeth mae'n ei ddarparu, ei faint na'i drosiant, a yw'r gwasanaeth yn un y mae angen talu i'w ddefnyddio, neu'n a yw'n rhad ac am ddim.

## Pa wasanaethau mae hyn yn eu cwmpasu

Bron a bod unrhyw beth sy'n cael ei gynnig fel gwasanaeth i'r cyhoedd,

gan gynnwys:

- mynediad i fannau cyhoeddus
- dull o gyfathrebu
- gwasanaethau gwybodaeth
- gwasanaethau cyflogaeth
- cyfleusterau adloniant, hamdden a lluniaeth
- gwasanaethau proffesiynol neu fasnachol
- gwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod cyhoeddus arall

## Gall gwahaniaethu ar sail anabledd fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

**Gwahaniaethu uniongyrchol** yw pan fo rhywun yn cael ei drin yn llai ffafriol am fod anabledd ganddynt, nag y byddai rhywun heb anabledd yn cael ei drin o dan yr un amgylchiadau.

Dyma esiampl o **wahaniaethu uniongyrchol** oherwydd anabledd:

> Mae grŵp drama ar gyfer pobl ifanc yn caniatáu i blentyn y mae ei wyneb wedi anffurfio gymryd rhan yn y gweithgareddau grŴp wythnosol, ond nid yw'n cael cymryd rhan mewn perfformiadau. Nid yw'r plentyn anabl yn cael yr un dewisiadau a chyfleoedd â'r plant heb anableddau.

**Gwahaniaethu anuniongyrchol** yw lle bo rheol, polisi neu arfer sydd i'w weld yn berthnasol i bawb yr un fath yn gosod person anabl o dan anfantais annheg o'i gymharu â phobl eraill nad ydynt yn anabl.

Dyma esiampl o **wahaniaethu anuniongyrchol**:

> Mae canolfan gelfyddydau yn cynhyrchu llyfryn am ei wasanaethau. Er mwyn arbed arian, nid yw'n cynhyrchu fersiwn testun plaen o'r llyfryn mewn print bras. Byddai hyn yn ei gwneud yn anos i rywun â nam ar eu golwg gyrchu'r gwasanaethau, a gallai hyn fod yn achos o wahaniaethu anuniongyrchol.

Weithiau, mae hi'n bosibl cyfiawnhau'r rheol, y polisi neu'r arfer sy'n gosod pobl anabl o dan anfantais. Er enghraifft, gallai fod yna rheswm sy'n seiliedig ar iechyd a diogelwch, neu reswm busnes anhepgor. Lle bo hynny'n wir, ni fydd hyn yn cyfrif fel achos o wahaniaethu.

Mae yna **wahaniaethu sy'n deillio o anabledd** hefyd. Mae hyn yn golygu bod rhywun yn cael ei drin yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig â'u hanabledd ac nad oes unrhyw reswm da dros wneud hynny. Er enghraifft, hwyrach fod angen iddynt ddefnyddio ci tywys, ond nad oes unrhyw addasiadau'n cael eu gwneud i ganiatáu ar gyfer hyn.

Mae hi'n fater o wahaniaethu ar sail anabledd os yw rhywun yn methu â chyflawni addasiadau er mwyn caniatáu i bobl anabl gyrchu gwasanaethau neu gyflawni eu swyddi. Gelwir hyn yn **ddyletswydd i gyflawni addasiadau rhesymol**.

Er enghraifft, gellid dweud bod caffi â seddi sefydlog yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl â namau symudedd, a fyddai'n cael anhawster defnyddio'r gwasanaethau. Addasiad rhesymol yn yr achos hwn fyddai darparu rhai ardaloedd â seddi hyblyg.

Gallai **addasiadau rhesymol** eraill gynnwys:

- Mynediad ar hyd ramp yn lle grisiau
- System dolen sain gludadwy ar gyfer cyfarfodydd neu sgyrsiau
- Marcio cyfleusterau parcio sy'n hygyrch i bobl mewn cadeiriau olwyn yn y maes parcio
- Rhyddhau gwybodaeth mewn fformat hygyrch ar gais (Braille, sain, print bras, cyfryngau electronig, hawdd ei ddarllen)
- Darparu dehonglwyr BSL, dehonglwyr gwefusddarllen, neu weithredwyr offer troi iaith lafar yn destun
- Y cyfleuster i gysylltu trwy negeseuon testun

Mae'n bwysig nodi nad oes gofyn i ddarparwr gwasanaethau newid natur y gwasanaeth a ddarperir. Er enghraifft, nid oes rhaid i linell gymorth dros y ffôn newid i fod yn wasanaeth personol neu ysgrifenedig. Fodd bynnag, byddai angen i staff fod yn ymwybodol o dechnoleg hygyrch, fel gwasanaethau testun er enghraifft, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl fyddar ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r canlynol yn fater o **wahaniaethu ar sail anabledd** hefyd:

- aflonyddu ar berson anabl, er enghraifft trwy wneud jôcs am ei nam
- erlid person anabl os yw'n cymryd camau cyfreithiol oherwydd gwahaniaethu
- erlid rhywun sy'n helpu person anabl i gymryd camau cyfreithiol oherwydd gwahaniaethu
- peidio â chymryd camau er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn gallu cyrchu pethau fel nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, mewn gweithle, sefydliad addysgol, cymdeithas neu adeilad cyhoeddus. Gelwir hyn yn **cyflawni addasiadau rhesymol**
- os oes rhywun yn gwahaniaethu yn eich erbyn am fod rhywun sy'n gysylltiedig â chi'n anabl, fel eich partner neu'ch plentyn. Gelwir hyn yn **gwahaniaethu trwy gysylltiad.**

Dyma esiampl o **wahaniaethu trwy gysylltiad**:

> Gwrthodir rhoi dyrchafiad i fenyw am fod problemau iechyd meddwl gan ei gŵr ac nid yw'r cyflogwr yn hoffi hynny



Ysgol Pendalar, Galeri Caernarfon Cyf

Nid yw'n ddigon osgoi trin pobl anabl yn llai ffafriol, na hyd yn oed "trin pawb yr un fath". Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhagweld gofynion defnyddwyr cyfredol y gwasanaethau a darpar-ddefnyddwyr, a gwneud addasiadau i ddarparu ar eu cyfer.

Bydd cyflawni asesiad o effeithiau cydraddoldeb ar bolisïau, arferion a gweithdrefnau yn sicrhau bod eich sefydliad yn gweithredu mewn ffordd ragweithiol wrth ddileu gwahaniaethu. Rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau sicrhau nad oes unrhyw bolisïau, arferion na gweithdrefnau, nawr neu yn y dyfodol, yn achosi anfantais anghyfreithlon neu y gellid ei osgoi i bobl anabl, neu i bobl ag unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill.

Rhaid gwirio'r holl bolisïau - ac nid dim ond y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â phobl anabl.

# Rhan 4: Addysg

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae hawl gan blant ac oedolion i gael eu cynnwys yn addysg y brif ffrwd cyn ac ar ôl 16 oed, ac i gael eu gofynion o ran mynediad wedi eu diwallu.

Mae dyletswydd ar sefydliadau addysg i gynnwys pobl anabl, gwneud darpariaeth ar gyfer eu gofynion o ran mynediad, a dileu neu leihau unrhyw rwystrau ffisegol, agweddol a sefydliadol sy'n atal pobl anabl rhag dysgu a chystadlu ar yr un telerau â'r myfyrwyr nad ydynt yn anabl

**Enghraifft**

**Dylai cwmni theatr sy'n gweithio mewn ysgol sicrhau bod ei gynyrchiadau a'i weithdai yn hygyrch i blant anabl.**

## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Daeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i rym ar 5 Ebrill 2011. Mae yna ddyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus, a daeth y rhain yn gyfraith yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011.

Rhaid i unrhyw un sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasau da rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai heb nodweddion o'r fath.

Rhaid i bawb sy'n dod o fewn cwmpas y ddyletswydd gyhoeddi eu hamcanion o ran cydraddoldeb er mwyn dangos sut y maent yn rhoi'r ddyletswydd ar waith.

Dyma enghreifftiau o gyrff cyhoeddus:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyrff llywodraethu colegau addysg bellach ac uwch a phrifysgolion
- Cyrff llywodraethu sefydliadau addysgol a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol (gan gynnwys ysgolion)
- Rhai amgueddfeydd a ariennir â chyllid cyhoeddus

# Gorfodi

## Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

### Mandad

"Rhoddodd y Senedd fandad i'r Comisiwn i herio gwahaniaethu, ac i amddiffyn a hybu hawliau dynol."

### Gweledigaeth

"Rydyn ni'n byw mewn gwlad sydd â hanes hir o gynnal hawliau pobl, gwerthfawrogi amrywiaeth a herio anoddefgarwch. Nod y Comisiwn yw cynnal a chryfhau'r dreftadaeth yma wrth adnabod a mynd i'r afael â meysydd lle bo gwahaniaethu annheg yn dal i fodoli, neu lle nad yw hawliau dynol yn cael eu parchu."

## Gwybodaeth Bellach

www.equalityhumanrights.com

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** (Prif swyddfa Cymru)
1 Caspian Point, Caspian Way, Bae Caerdydd CF10 4DQ
Ffôn 029 2044 7710 (galwadau nad ydynt i'r llinell gymorth yn unig)
E-bost: wales@equalityhumanrights.com

Os ydych chi'n gweithio yn y cyfryngau ac am siarad â swyddfa'r wasg yn y Comisiwn, ffoniwch 02920 447710

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori ar Gydraddoldeb (EASS)** wedi disodli llinell gymorth y Comisiwn
Ffôn: 0808 800 0082
Ffôn testun: 0808 800 0084

Gwefan: www.equalityadvisoryservice.com

# Cymdeithas a Phobl Anabl

## Y Cefndir a'r Hanes

Hyd yn oed os cymerwn gipolwg ar hanes pobl anabl ym Mhrydain, mae gwreiddiau gwahaniaethu a'r hyn sy'n achosi allgáu cymdeithasol i'w gweld yn amlwg.

Yn hanesyddol, mae pobl anabl wedi cael gwahanol rolau mewn gwahanol ddiwylliannau:

Cred rhai llwythi a diwylliannau eraill fod pobl anabl yn bwerus, yn gyfriniol neu y dylid eu mawrygu, a'u bod wedi cael eu dewis neu eu cyffwrdd gan y duwiau.

Fodd bynnag, yr oedd barn y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn wahanol.

Gan eu bod yn mawrygu perffeithrwydd corfforol a meddyliol roeddent yn ystyried bod unrhyw fath o nam, boed yn gorfforol neu'n feddyliol, yn drasiedi neu'n felltith. Roeddent yn priodoli hyn i gosb gan y duwiau am ryw fath o gamwedd neu wendid.

Mae diwylliant modern y Gorllewin, sy'n dibynnu'n fawr ar y clasuron ar gyfer gwybodaeth ac addysg, bob amser wedi tueddu i ffafrio'r ail farn. Os edrychwch ar bopeth o storïau tylwyth teg i ffilmiau James Bond, o hysbysebion elusennau i'r gemau Olympaidd, fe welwch fod pobl anabl yn cael eu cyflwyno mewn un o dair ffordd:

- Dioddefwr gwan, diamddiffyn - rhywun sy'n dioddef yn sgîl trasiedi ofnadwy ac na all ymdopi heb ein cymorth ni, rhywbeth i gymryd trueni drosto, rhywbeth i'w osgoi ar bob cyfrif. Er enghraifft, Tiny Tim yn nofel 'A Christmas Carol' gan Charles Dickens

- Ffigur sinistr i'w ddrwgdybio neu hyd yn oed i'w ofni. Mae llenyddiaeth a'r cyfryngau yn llawn ffigurau o'r fath - Captain Hook, dihirod mewn cadair olwyn yn ffilmiau James Bond a llofruddwyr seicotig dramâu cyffro modern i enwi ond ychydig. O'n blynyddoedd cynnar cawn ein hamlygu i wrachod, cewri a chorachod, sydd oll yn cael eu cyflwyno fel pobl ddrwg.

- Yr arwr. Mae hyn yn dangos pobl anabl yn goresgyn rhwystrau a achosir gan eu cyflwr trasig, rhwystrau sydd i bob golwg yn anorchfygol, drwy weithredoedd goruwchddynol a champau rhyfeddol er mwyn ennill yn y pen draw. Caiff y darlun hwn, sy'n ffefryn y rhaglenni dogfen, ei grynhoi gan stori wir am beilot o'r Ail Ryfel Byd, Douglas Bader, a barhaodd i hedfan awyrennau, denu merched a hyd yn oed ddianc o wersylloedd rhyfel er gwaetha'r ffaith nad oedd ganddo goesau.

## Mudiad Pobl Anabl

Ym Mhrydain sefydlwyd mudiad pobl anabl ar ddiwedd y 1970au a'r 1980au. Dilynodd yn glos wrth sodlau mudiad pobl anabl America a welodd gyn-filwyr Fietnam, a oedd yn ifanc, yn addysgedig a chanddynt nam corfforol, yn ymladd ac yn ennill mesur Hawliau Sifil llawn. Heddiw mae sawl sefydliad a Chynghrair, a'r mwyaf nodedig ohonynt o bosibl yw Cyngor Pobl Anabl y Deyrnas Unedig ac Anabledd Cymru. Prif swyddogaeth yr holl sefydliadau hyn yw gwrthsefyll pob math o ormes, rhagfarn a gwahaniaethu ac ymgyrchu dros fynediad a chyfle cyfartal i bobl anabl. Gellir crynhoi'r awydd hwn i gael eu cynnwys mewn pob agwedd ar fywyd yn y slogan "Dim Byd Amdanom Ni, Hebom Ni".



Unusual Stage School - Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Keith Morris)

## Modelau Anabledd

Ffyrdd o ddeall anabledd ac ymateb iddo yw modelau anabledd. Maent yn disgrifio theori'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol ym mywydau pobl anabl, a chânt eu hysgrifennu gan bobl anabl, i helpu cymdeithas i ddeall eu gormes a'r newidiadau sydd eu hangen. Y model meddygol yw barn draddodiadol cymdeithas, sy'n arwain at ddiffyg grymuso a gwahanu pobl anabl, ac nid yw'n cynnig unrhyw ffordd ymlaen ar gyfer newid. Mae'r model cymdeithasol yn annog cymdeithas i feddwl am bobl anabl ar yr un lefel â phobl nad ydynt yn anabl - fel pobl a chanddynt hawliau ac anghenion, yn hytrach na gwahaniaethau a phroblemau. Mae'n gofyn i gymdeithas newid er mwyn darparu ar gyfer pobl anabl, ac mae'n nodi y bydd cymdeithas sy'n fwy cynhwysol tuag at bobl anabl yn lle gwell i bawb.

# Y Model Meddygol

Yn hanesyddol, mae pobl anabl wedi talu pris mawr am gael eu hystyried fel dioddefwyr trasig neu ffigurau sinistr i'w hofni a'u hosgoi. Mae hyn wedi arwain at gael eu gwahanu o ran eu magwraeth, tai, addysg a chyflogaeth. Yn hanesyddol bu pobl anabl ymysg y tlotaf yn y wlad ac mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae diweithdra ymysg oedolion anabl o oedran gweithio yn parhau i fod oddeutu 50% ac mae llawer o bobl anabl yn parhau i fyw bywydau ar wahân ac unig.

Mae'r model meddygol yn gweithio drwy ymateb i nam rhywun o safbwynt meddygol. Yr opsiwn cyntaf yw ceisio gwella'r person, a'u gwneud yn union fel pawb arall. Yr ail opsiwn yw triniaeth i sicrhau bod y person mor debyg i bawb arall â phosibl - e.e. llawdriniaeth ar blant a chanddynt Syndrom Down i wneud iddynt edrych fel pe na bai'r syndrom ganddynt. Os bydd y rhain yn methu, y trydydd opsiwn yw darparu 'gofal', sydd fel arfer ar wahân, ac nid yw'n darparu'r ansawdd bywyd y mae pobl nad ydynt yn anabl yn ei ddisgwyl.

Yn aml ystyrir bod gwneud newidiadau i sicrhau bod bywyd yn fwy hygyrch ac yn fwy cynhwysol yn rhywbeth 'ychwanegol' ac yn rhywbeth i'w ddrwgdybio a cheir hyd yn oed ddicter oherwydd y gost. Yn aml caiff pobl anabl eu hunain, sy'n teimlo'n ddig ynghylch anghydraddoldeb, gwahaniaethu a'r rhwystrau a wynebant, eu hystyried fel pobl sy'n codi twrw neu bobl sy'n chwerw oherwydd eu hanabledd.



Lluniau o'r dde i'r chwith: Unusual Stage School - Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Keith Morris)

# Y Model Elusennol

Yn hanesyddol dechreuodd elusennau drwy geisio gwneud rhywbeth am yr amodau ofnadwy yr oedd llawer o bobl yn byw ynddynt ym Mhrydain. Roeddent yn defnyddio cyfoeth y breintiedig i geisio gwella bywydau'r difreintiedig a'r canlyniad oedd bod y cymwynaswyr yn cael anrhydeddau, braint a phwer oherwydd eu haelioni a bod y bobl anabl eu hunain yn ffodus ac yn ddyledus iawn i'r elusen.

Mae elusennau modern yn ceisio symud oddi wrth y ddelwedd hen ffasiwn hon. Yn aml maent yn defnyddio'r syniad o berson anabl fel arwr sy'n aml (gyda chymorth yr elusen!) yn goresgyn treialon a phroblemau dybryd i fyw bywyd hapus, a theimlo eu bod wedi eu grymuso. Mae iaith elusennau yn llawn geiriau ac ymadroddion fel "dewr", "gwrol" "hael", "caredig", "helpu pobl i fyw bywyd gwell" a geiriau poblogaidd eraill y dydd.





# Y Model Cymdeithasol - Meddylfryd Newydd

Diffiniwyd y Model Cymdeithasol o Anabledd gan ymgyrchwyr anabledd yn y 1970au a'r 80au a welodd yr angen i bobl anabl ddechrau cymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Mae'r Model Cymdeithasol yn rhoi meddylfryd newydd i ni ac offeryn i sicrhau newid. Mae'n gwahanu "nam" oddi wrth "anabledd":

**Namau** yw'r cyflyrau meddygol sydd gan bobl.

**Anabledd** yw'r cyfyngiad ar fywydau pobl a chanddynt nam, oherwydd eu bod yn byw mewn cymdeithas nad yw'n ystyried eu hanghenion.

Mae'n gweithio fel hyn:

**Nam** - yw'r "hyn sy'n bod arnom". Gall namau fod yn fach neu'n ddifrifol, yn unigol neu'n lluosog, dros dro neu'n hirdymor. Nid yw namau yn parchu ffiniau. Waeth faint yw eich oed, waeth beth yw eich rhyw neu'ch cefndir ethnig, neu waeth pa mor gyfoethog yr ydych, gallwch gael nam. Rydym yn cael namau drwy drawma, damwain, geneteg, salwch, heneiddio a sawl ffordd arall.


**Mae anabledd yn wahanol** - Dyma'r rhwystrau mewn cymdeithas sy'n achosi'r problemau sy'n gwneud pobl yn anabl. Mae llawer o rwystrau mewn cymdeithas sy'n atal pobl anabl rhag cael dewisiadau cyfartal.

- ffisegol neu amgylcheddol - rhai y gallwn eu cyffwrdd neu eu gweld
- cymdeithasol neu agweddau - y ffordd y mae pobl yn meddwl ac yn gweithredu
- sefydliadol, ariannol a hyd yn oed emosiynol

Gallai enghreifftiau yn y celfyddydau gynnwys diffyg lleoedd parcio hygyrch, sinema heb isdeitlau neu ddisgrifiadau clywedol, cyhoeddusrwydd mewn print bach ar bapur â sglein arno, gweithdy cyflym sy'n llawn jargon, sefydliad sy'n tybio na all pobl anabl gymryd rhan - heb sôn am gael eu cyflogi.

Mae'n bwysig cofio na all pobl newid - ni fydd ein namau yn diflannu. Ond gellir cael gwared ar y rhwystrau, ac os bydd ein cymdeithas yn gwbl hygyrch, yna ni fydd neb yn anabl. Os defnyddiwn y model cymdeithasol i sicrhau newid, gallwn gael effaith wirioneddol ar hygyrchedd y celfyddydau.

Ni fydd neb yn disgwyl i chi rhoi disgrifiad deheuig o'r Model Cymdeithasol ar amrantiad. Yr hyn sy'n bwysig yw dealltwriaeth bod gan bobl ffordd wahanol o gael mynediad i bethau, ond drwy gydweithio, gallwn wneud newidiadau enfawr er gwell. Bydd popeth a wnewch i wella mynediad yn gwneud gwahaniaeth!




'Dyslixic books' gan Rob Pleasance

## Darllen pellach

**Anabledd Cymru**
www.disabilitywales.org/socialmodel.html

**Model Cymdeithasol o Anabledd**
http://en.wikipedia.org/wiki/Social_model_of_disability

# Iaith ac Anabledd

Mae pobl yn pryderu am ddefnyddio'r geiriau anghywir ac achosi tramgwydd i bobl anabl; maent am wybod pa eiriau y gallant eu defnyddio'n ddiogel, a pha rai y dylent eu hosgoi.

Mae'n bwysig bod pobl anabl yn arwain y ddadl ynghylch yr iaith a'r derminoleg sydd orau ganddynt, a dyna pam yr ydym yn cymryd y termau a ffefrir gan y mudiad pobl anabl.

Dylai'r derminoleg isod fod yn ddigonol ar gyfer defnydd cyffredinol, ond os nad ydych yn siwr gofynnwch i bobl anabl beth yr hoffent gael eu galw a sut yr hoffent gael eu disgrifio. Os nad yw hyn yn briodol, cysylltwch â Chelfyddydau Anabledd Cymru a all roi cyngor i chi neu eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun arall a all eich helpu.

## Termau a ffefrir

- Pobl anabl - 'term ymbarél' sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd
- Defnyddwyr cadeiriau olwyn
- Pobl â nam symudedd
- Pobl ag anawsterau dysgu / pobl ag anableddau dysgu / pobl anableddau dysgu
- Pobl fyddar / pobl trwm eu clyw / bobl wedi'u byddaru
- Pobl ddall / pobl â nam ar eu golwg
- Pobl ag epliepsi / parlys yr ymennydd (neu ba bynnag yw'r nam sydd ar y person)
- Pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl / goroeswyr y system iechyd meddwl
- Pobl nad ydynt yn anabl

Er y gellir defnyddio'r term 'pobl anabl' yn eithaf eang fel term cyffredinol, yr eithriad yw pan gyfeirir at Bobl fyddar o'r gymuned Fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel eu hiaith gyntaf. Mae pobl fyddar yn ystyried eu hunain yn lleiafrif ieithyddol y mae pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail iaith. Gall persbectif y gymuned fyddar ar wahaniaethu fod yn wahanol iawn i bersbectif pobl sydd wedi'u byddaru neu bobl trwm eu clyw sydd wedi colli eu clyw yn ddiweddarach mewn bywyd ac y mae iaith lafar yn iaith gyntaf iddynt yn hytrach nag iaith arwyddion.

## Termau i'w hosgoi

- Yr anabl / y deillion / y byddar ac ati (peidiwch â dweud 'y/yr' o gwbl!)
- Pobl ag anableddau
- Pobl a chanddynt heriau corfforol
- Pobl sy'n gaeth i gadair olwyn
- Y methedig
- Pobl sy'n dioddef o…
- Sbastig
- Ynfyd / anghytbwys / gwallgof
- Pobl araf
- Pobl ag anghenion arbennig
- Pobl abl

**Beth i'w ofyn:** canolbwyntiwch ar anghenion mynediad bob amser yn hytrach na label meddygol person. Mae "A oes gennych unrhyw ofynion mynediad?" neu "Beth allwn ni ei wneud i'ch helpu?" yn gwestiynau llawer mwy defnyddiol na "Beth yw'r nam sydd arnoch?" neu (plîs, na!) "Beth sy'n bod arnoch chi"?

Mae llawer o bobl yn cael eu drysu neu'n mynd yn rhwystredig oherwydd bod term a oedd yn gwbl dderbyniol yr wythnos diwethaf yn annerbyniol yr wythnos hon. Tair enghraifft dda o hyn yw'r termau 'anghenion arbennig', 'pobl abl', a 'phobl ag anableddau'.

Mae 'anghenion arbennig' yn parhau i gael ei ddefnyddio'n eang, yn arbennig yn y byd addysgol, ond nid yw hynny'n ei wneud yn dderbyniol - mae pobl anabl wedi cael llond bol ar fod yn 'arbennig', Mae'n well canolbwyntio ar gyfleoedd cyfartal, nid triniaeth arbennig.

Mae 'abl' yn awgrymu rhagoriaeth gorfforol neu feddyliol, ac mae hyn yn anghywir ac yn nawddoglyd. Mae'r defnydd o'r term "pobl nad ydynt yn anabl" fodd bynnag, yn cyfeirio at berson nad yw cymdeithas yn ei wneud yn anabl yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Roedd 'pobl ag anableddau' yn boblogaidd am flynyddoedd, ond mae'n derm eithaf meddygol ac yn canolbwyntio'n ddiangen ar y nam. Defnyddiwch derm y Model Cymdeithasol - 'pobl anabl' sy'n golygu pobl y mae cymdeithas yn eu gwneud yn anabl.

Dim ond pan mae gwirioneddol raid y dylid defnyddio labeli. Mae'n llawer gwell defnyddio enwau pobl neu ddefnyddio pa bynnag derminoleg (cwsmer, cyfranogwr ac ati) y byddech yn ei ddefnyddio ar gyfer pawb arall.

Peidiwch â phoeni ynghylch ailddyfeisio'r defnydd o iaith. Yr ydym oll yn defnyddio ymadroddion fel "ydych chi'n gweld beth yr wyf yn ei olygu?" a "cerddwch y ffordd hyn" ac "ydych chi wedi clywed ganddo?". Peidiwch â theimlo bod yn rhaid i chi wneud ymdrech arbennig i osgoi'r termau hynny pan fyddwch yn siarad â phobl anabl.

Yn anad dim, peidiwch â phryderu cymaint am yr iaith nes eich bod yn peidio â siarad â phobl anabl. Mae deialog yn hollbwysig os ydym am gyd-fyw mewn cymdeithas fwy cynhwysol. Os yw eich agwedd yn briodol ac os ydych yn barod i wrando a dysgu, byddent yn maddau i chi am ddefnyddio ambell ymadrodd yn ddifeddwl.

## Gwneud i bobl deimlo bod croeso iddynt

Mae'r diwydiant celfyddydol yn ymwneud â sicrhau bod pobl yn teimlo bod croeso iddynt - yr ydym am i artistiaid a pherfformwyr weithio gyda'ch sefydliad eto, ac yr ydych am i'r cwsmeriaid ddod yn ôl. Rydych yn gwybod beth i'w wneud gan fwyaf; mae cwrteisi a synnwyr cyffredin yn helpu i Arferion Gorau gael eu rhoi ar waith yn ddidrafferth. Felly beth ddylech chi ei wneud pan fydd pobl anabl yn gweithio gyda chi neu'n dod i'ch lleoliad neu'ch digwyddiad?

Dyma ambell senario gyfarwydd…

### Defnyddiwr cadair olwyn yn cael trafferth i fynd i fyny ramp a charped arno

Gofynnwch: "A oes angen help arnoch?"

Peidiwch â: Cherdded y tu ôl i'r person a gafael yn eu cadair heb ofyn

### Person dall sy'n ansicr i ba gyfeiriad y dylai fynd

Sicrhewch eich bod yn: Cyflwyno eich hun i ddechrau, gan ddweud 'Ydych chi am i mi fynd â chi i …?" (ble bynnag y maent am fynd)

Dweud 'Hoffech chi afael yn fy mraich?'

Disgrifio unrhyw risiau i fyny neu i lawr ac unrhyw droeon anodd cyn eu cyrraedd

Peidiwch â: Gafael ym mraich y person heb ddweud gair a'i arwain i le bynnag y maent am fynd

**Rydych yn mynd y tu ôl i'r llwyfan ar ôl perfformiad gan oedolion ag anableddau dysgu, i ddweud wrth y cast cymaint yr ydych wedi mwynhau'r sioe**

Sicrhewch eich bod yn: Defnyddio iaith bob dydd fel "Fe wnes i fwynhau'r sioe yn fawr (gan nodi un neu ddau o bethau penodol) Diolch yn fawr iawn!"

Peidiwch â: Mynd dros ben llestri â churo pobl yn ysgafn ar eu pennau.

**Person anabl yn cael trafferth codi**

Sicrhewch eich bod yn : Dweud 'Alla i eich helpu?'

Peidiwch â: Gafael yn ei fraich a cheisio ei dynnu o'r gadair.

Weithiau gall ymddangos fel bod person anabl yn symud yn afrosgo, ond gall gafael ym mraich y person, hyd yn oed yn ysgafn, achos llawer o boen, neu achosi iddo golli cydbwysedd. Gofynnwch yn gyntaf.

**Os bydd person anabl yn dweud "Dim diolch" mewn ymateb i'ch cynnig o help**

Sicrhewch eich bod yn: Dweud, "Iawn" gan wenu.

Peidiwch â: Theimlo eich bod wedi cael eich gwrthod neu bryderu eich bod wedi gwneud rhywbeth o'i le. Mae gan bawb hawl i wrthod help yn ogystal â'i dderbyn, ac yr ydych wedi gwneud y peth iawn drwy gynnig.

Mae'r 'Peidiwch â' yn yr enghreifftiau hyn yn swnio dros ben llestri braidd, ond mae pethau fel hyn yn digwydd i bobl anabl drwy'r amser, ac maent yn eu cythruddo. Mae un cyn actores yn dal i deimlo'n wallgof ar ôl i rywun ei churo'n ysgafn ar ei phen ar ôl perfformiad flynyddoedd yn ôl!

Fel gyda phawb arall, mae cwrteisi a synnwyr cyffredin yn helpu i gael gwared ar unrhyw deimladau anghysurus. Cofiwch, os oes gennych unrhyw amheuaeth, **gofynnwch yn gyntaf!**

Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am iaith, y ffordd orau yw dilyn esiamplau sefydliadau a arweinir gan bobl anabl:

**Celfyddydau Anabledd Cymru:** www.disabilityartscymru.co.uk
**DASh (Celfyddydau Anabledd Sir Amwythig):** www.dasharts.org
**Fforwm Celfyddydau Anabledd Llundain:** www.ldaf.org
**DaDa Fest** www.dadafest.co.uk
**Anabledd Cymru:** www.disabilitywales.org
**Cyngor Pobl Anabl y Deyrnas Unedig:** www.ukdpc.net/site

# Beth yw Celfyddydau i Bobl Anabl?

Dechreuodd datblygiad celfyddydau i bobl anabl yn y 1970au / 80au o ganlyniad i ymgyrchu gwleidyddol newydd gan y mudiad pobl anabl. Cyn hynny roedd y rhan fwyaf o gelfyddyd yn ymwneud â phobl anabl yn cael ei wneud gan bobl nad oeddent yn anabl. Pan ddechreuodd pobl anabl ddefnyddio'r celfyddydau i adlewyrchu eu profiadau, roedd hyn yn bersbectif gwahanol iawn.

Mae celfyddydau i bobl anabl bob amser yn cael ei wneud gan bobl anabl, sydd naill ai'n bobl broffesiynol neu'n amaturiaid. Ni all celfyddydau i bobl anabl byth gael ei wneud neu ei arwain gan bobl nad ydynt yn anabl.

Mae celfyddydau i bobl anabl yn adlewyrchu profiadau pobl anabl, neu ddiwylliant anabledd. Gall hyn fod yn eithaf amlwg, fel mewn hunan bortread neu hunangofiant, neu gall ymaterion fod yn fwy cymhleth.

Mae celfyddydau i bobl anabl yn yr 21ain Ganrif yn llai gwleidyddol nag yn y dyddiau cynnar, ond fel arfer mae'n ceisio sicrhau newid, neu roi persbectif arbennig i fater penodol.

I ddechrau, cynhyrchwyd celfyddydau i bobl anabl gan artistiaid anabl i bobl anabl eraill. Yr oedd yn ffordd o gyfathrebu a chydnabod a rhannu profiadau. Bellach, mae ymarferwyr celfyddydau i bobl anabl yn cyrraedd celfyddydau prif ffrwd, a gallant ddenu cynulleidfa eithaf amrywiol.

## A yw pob gwaith celf gan bobl anabl yn 'gelfyddydau i bobl anabl'?

Nac ydy. Nid yw artist anabl sy'n paentio tirlun yn creu celfyddyd i bobl anabl o anghenraid. Efallai bod yr artist am baentio'r tirlun hwnnw, ond efallai y bydd ei gwaith yn cael ei ddylanwawdu gan brofiad o anabledd.





Unusual Stage School - Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Keith

## Beth am 'gelfyddydau ac anabledd'? Ai'r un peth yw hynny?

Defnyddir y term 'celfyddydau ac anabledd' i ddisgrifio prosiectau celfyddydol sydd wedi'u sefydlu yn arbennig ar gyfer pobl anabl, ond sydd fel arfer yn cael eu harwain gan bobl nad ydynt yn anabl. Gellir dod o hyd i waith celfyddydau ac anabledd yn y gymuned, neu mewn cartrefi preswyl, ysgolion arbennig neu ganolfannau gofal dydd. Nid yw celfyddydau ac anabledd yn ceisio adlewyrchu profiadau bywydau pobl anabl yn yr un ffordd ag y gwna celfyddydau i bobl anabl.

## Beth yw'r cysylltiad rhwng celfyddydau i bobl anabl a chelfyddydau ac iechyd?

Maent yn wahanol iawn. Gall celfyddydau ac iechyd fod yn waith celf mewn lleoliad iechyd fel meddygfa, clinig neu ysbyty. Gall fod yn brosiect mewn hosbis neu gartref preswyl, neu brosiect yn y gymuned a chanddo amcanion arbennig yn ymwneud ag iechyd. Gall celfyddydau ac iechyd gynnwys pobl anabl a / neu bobl nad ydynt yn anabl. Hyd yn oed os yw pobl anabl yn cymryd rhan, nid yw celfyddydau ac iechyd yn gelfyddydau i bobl anabl, neu'n gelfyddydau ac anabledd.

## Beth yw 'celfyddydau cynhwysol'?


Mae llawer o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod y celfyddydau yn fwy hygyrch i ystod eang o gyfranogwyr. Mae digwyddiad celfyddydol sy'n hygyrch i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn 'hygyrch' neu'n 'gynhwysol'. Dylai pob math o gelfyddyd, boed yn brif ffrwd, celfyddydau i bobl anabl, celfyddydau ac anabledd neu gelfyddydau ac iechyd fod yn hygyrch ac yn gynhwysol.

## Deunyddiau darllen pellach:

**Effecting Change – Disability Arts and Culture; papur gan Colin Barnes**
http://disability-studies.leeds.ac.uk/files/library/Barnes-Effecting-Change.pdf

**Face On: Disability Arts in Ireland and Beyond gan Gol. Kaite O'Reilly.**
Yn cymharu twf celfyddydau anabledd yng Nghymru ac Iwerddon
Cyhoeddwyd gan Arts and Disability Ireland ISBN9780955474903
Cysylltwch â - Katrina Goldstone yn Create  Ffôn: 01 473 6600
e-bost: communications@create-ireland.ie

**Chronology of Disability Arts gan Allan Sutherland**
http://www.disabilityartsonline.org.uk/Chronology_of_Disability_Arts



Unusual Stage School - Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Keith Morris)

# Llunio Cynllun Gweithredu

## Cyflwyniad i Lunio Cynllun Gweithredu

Yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, mae dyletswydd ar bob darparwr gwasanaethau i archwilio a diwygio polisïau, gweithdrefnau ac arferion er mwyn atal gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl. Bydd datblygu cynllun gweithredu yn helpu i nodi'r camau a fydd yn gwneud eich sefydliad yn fwy hygyrch.

Gall rhai gwelliannau gymryd cryn dipyn o amser, yn enwedig os bydd angen dod o hyd i gyllid, ond gellir cyflawni eraill yn hynod o rwydd heb fawr o gost neu heb ddim cost o gwbl.

Pwyntiau allweddol

- Cynlluniwch yn realistig, gan ystyried adnoddau'r sefydliad
- Gosodwch amcanion hirdymor, tymor canolig a byrdymor
- Nodwch amser ar gyfer ymchwil/darganfod ffeithiau
- Ymgynghorwch â phobl anabl a'u cynnwys yn y broses
- Rhannwch brofiadau gyda sefydliadau celfyddydol eraill
- Ceisiwch fonitro datblygiad y cynllun gweithredu yn rheolaidd

## Strwythur y Cynllun Gweithredu

Dilynwch strwythur tebyg ar gyfer pob adran

- Nod: Amlinellwch beth yw eich nod
- Camau: Dangoswch y camau sydd angen eu cymryd
- Cyfrifoldeb: Nodwch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob cam yn cael ei weithredu
- Dyddiad: Nodwch amser penodol ar gyfer pob cam

# Materion sy'n gysylltiedig â llunio Cynllun Gweithredu

Bydd cynnwys materion i weithredu arnynt ym mhob cynllun yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o wasanaeth celfyddydol sy'n cael ei ddarparu, maint y sefydliad a'i adnoddau. Ystyriwch y meysydd canlynol:

- Mynediad i ddarpariaeth gelfyddydol (ee perfformiad, gweithdy)

Ni ddylid newid natur y ddarpariaeth gelfyddydol o anghenraid, ond dylech ddangos cynlluniau ar gyfer newid a fydd yn galluogi pobl anabl i gael mynediad i'r gwasanaethau.

- Datblygu cynulleidfaoedd

Gellir datblygu cynulleidfaoedd o bobl anabl mewn sawl ffordd. Ystyriwch newid amser rhaglennu, prosiectau newydd, partneriaethau, gwelliannau i fynediad...

- Lleoliad y ddarpariaeth gelfyddydol

Gall hyn fod yn lleoliad y sefydliad, teithiau neu ymweliadau, neu gall fod yn ganolfan gelfyddydau, theatr, ysgol, pabell, castell, cae, traeth ac ati. Nodwch welliannau angenrheidiol neu leoliadau gwahanol.

- Lleoliad swyddfa'r sefydliad

Adeilad cyfan, un ystafell, desg yng nghornel swyddfa sefydliad arall, gweithio o gartref.. Dim ots pa mor fawr neu fach, mae'n rhaid i bobl allu cael mynediad i'ch swyddfa neu fannau cyfarfod gwahanol.

- Cyfathrebu

Ffôn, e-bost, ffacs, gwefan, negeseuon testun, cyfeiriad. A yw'n bosibl cynnig mwy o ddulliau cyfathrebu? Ystyriwch gymorth cyfathrebu ar gyfer y rhai sy'n mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd.

- Marchnata a chyhoeddusrwydd

Dangoswch sut bydd eich sefydliad yn cyrraedd pobl anabl, drwy gynyddu mynediad i wybodaeth sydd wedi ei hargraffu, neu sicrhau bod fformat gwahanol ar gael.

- Ymgysylltu â phobl anabl

Cynlluniau ar gyfer cael pobl anabl ar eich bwrdd, neu bwyllgor cynghori, gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau, ymgynghori ar faterion anabledd.



Prynhawn o Hwyl Galeri - Caernarfon Cyf / Contact a Family

- Cyflogaeth

Newidiadau wedi eu cynllunio i gynyddu mynediad o ran arferion cyflogi.

- Hyfforddiant

Cynlluniau ar gyfer hyfforddi aelodau'r bwrdd, staff a gwirfoddolwyr mewn materion cydraddoldeb i bobl anabl neu hyfforddiant arall sy'n berthnasol i faterion anabledd.

- Monitro ac asesu

Dangoswch sut yr ydych yn bwriadu monitro ac asesu datblygiadau'r cynllun gweithredu.

# Gweithio mewn partneriaeth â phobl anabl

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddatblygu cynulleidfaoedd o bobl anabl yw gweithio mewn partneriaeth â sefydliad anabl. Nid yn unig y mae pobl anabl yn arbenigwyr ar faterion mynediad, ond mae ganddynt hefyd rwydweithiau eang y byddai sefydliadau celfyddydol yn ei chael hi'n anodd eu cyrraedd o bosibl. Hefyd, gall pobl anabl gael golwg hollol wahanol ar ffurf o gelfyddyd sy'n dod â meddylfryd creadigol newydd i'r gwaith.

Fe fydd partneriaeth lwyddiannus yn rhoi digon o amser ar gyfer cynllunio a gweithio trwy syniadau newydd. Yn ddelfrydol bydd y naill sefydliad yn dysgu oddi wrth y llall, a bydd perthynas dda yn creu'r sylfaen i'w datblygu yn y dyfodol.

## Rhai enghreifftiau o bartneriaethau:

- Prosiect gweithdy ar y cyd wedi ei arwain gan arweinwyr gweithdy o un sefydliad neu'r ddau
- Partner yn dod ac arbenigedd penodol i'ch prosiect (marchnata, dod o hyd i gyfranogwyr, cyngor ar fynediad ac ati)
- Eich sefydliad chi yn dod ac arbenigedd penodol i brosiect eich partneriaid (artistiaid, perfformwyr, arweinwyr gweithdai ac ati)

## Ble i ddod o hyd i bartneriaid:

- Sefydliadau celfyddydol neu brosiectau wedi eu harwain gan bobl anabl neu eu harwain ar y cyd â phobl anabl
- Sefydliadau sy'n ymwneud â nam penodol (ar gyfer pobl fyddar, pobl ddall neu bobl â nam ar eu golwg, pobl a chanddynt anawsterau dysgu, pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl, ac ati)
- Ysgolion a cholegau a chanddynt fyfyrwyr anabl
- Gwasanaethau dyddiol lleol ar gyfer pobl anabl
- Grŵp anabledd neu grŵp mynediad lleol
- Gwasanaethau chwarae sy'n cynnwys plant anabl

# Pwyntiau Gweithredu

## Ymchwil

- Ceisiwch ddod o hyd i enghreifftiau o bartneriaethau rhwng sefydliadau celfyddydol a phobl anabl sydd wedi gweithio'n dda
- Sefydlwch amcanion cyffredinol ar gyfer eich prosiect (byddwch yn hyblyg gyda darpar bartneriaid)
- Cysylltwch â sefydliadau / grwpiau gyda'r nod o weithio mewn partneriaeth â hwy
- Trefnwch gyfarfod (gweler ymgynghori ac ymgysylltu gyda phobl anabl)

## Telerau'r bartneriaeth

- Nodwch beth y mae'r naill sefydliad a'r llall yn gallu ei gynnig i'r prosiect
- Nodwch sut y byddwch yn cydweithio
  e.e. cyfarfodydd rheolaidd
  y dulliau cyfathrebu sydd orau gan y ddwy ochr

## Os oes angen codi arian

- Trafodwch pa gyrff ariannu y dylid cysylltu â hwy i gael grantiau
- Cytunwch pwy fydd yn arwain pa geisiadau am gyllid
- Trefnwch eich bod yn cymeradwyo ceisiadau sydd wedi eu harwain gan y sefydliad arall cyn iddynt gael eu cyflwyno - ac i'r gwrthwyneb

## Cyn dechrau ar y prosiect

- Cytunwch pwy sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar y prosiect
  e.e. archebu lleoliad
  archebu artistiaid
  trefnu mynediad
  marchnata
  monitro

# Cysylltiadau eraill

Gellir cael rhestr o sefydliadau ar gyfer pobl anabl yn yr adran Gwybodaeth Ategol.

# Ymgynghori â phobl anabl ac ymgysylltu â hwy

Os ydych am gael pethau'n gywir ynglyn â mynediad a chynhwysiant, yna mae cynnwys pobl anabl o'r dechrau'n hanfodol. Bydd hyn nid yn unig o gymorth mawr wrth gynllunio materion yn ymwneud â mynediad, ond gall edrych ar wasanaeth eich sefydliad o bersbectif pobl anabl ddechrau proses greadigol hollol newydd.

Un o'r pethau gorau y gallwch ei wneud yw ymgynghori â sefydliad neu grŵp sy'n cael ei arwain yn bennaf gan bobl anabl.

Gallech hefyd ofyn i gwsmeriaid rheolaidd sy'n bobl anabl a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o ymgynghoriad.

Yn ogystal ag eistedd o amgylch y bwrdd yn trafod materion, mae ymgynghori hefyd yn golygu darganfod ffyrdd o ddatblygu cyfranogiad parhaol, er mwyn i bobl anabl allu cyfrannu'n ymarferol a chadarnhaol at ddatblygiad y sefydliad.

## Pwyntiau gweithredu

### Camau cynllunio

- Casglwch wybodaeth am sefydliadau a grwpiau addas o fewn eich dalgylch
- Gwiriwch eich rhestr cysylltiadau am bobl anabl sy'n mynychu eich digwyddiadau'n rheolaidd
- Cytunwch ar y ffordd fwyaf addas o gyfathrebu (e-bost, ffôn, llythyr neu gyfarfod)
- Siaradwch â chysylltiadau allweddol mewn sefydliadau perthnasol
- Cynigiwch dalu costau wrth ymgynghori â grwpiau gwirfoddol neu unigolion

### Trefnu cyfarfodydd

- Gwiriwch anghenion mynediad pawb
  e.e. mynediad i gadeiriau olwyn
  lleoedd parcio
  fformat y papurau / deunyddiau eraill
  cymorth cyfathrebu
  cymorth cynorthwy-ydd personol
  anghenion deietegol

- Cytunwch ar fan cyfarfod gyda mynediad addas
- Cytunwch pwy fydd yn trefnu unrhyw gymorth cyfathrebu angenrheidiol neu gymorth cynorthwy-ydd personol
- Cadarnhewch beth yn union sydd ei angen cyn trefnu cymorth cyfathrebu / cynorthwy-ydd personol
- Sicrhewch fod y papurau mewn fformat y cytunwyd arno
- Anfonwch bapurau ymlaen llaw yn electronig neu fel y cytunwyd

## Rhestr wirio o bwyntiau i'w trafod yn ystod y cyfarfod

## Digwyddiadau

- Pa fath o ddigwyddiadau y mae pobl yn dueddol o'u mwynhau?
- Beth arall y byddai pobl yn debygol o fod â diddordeb ynddo?
- A oes lleoliad penodol y mae pobl yn ei ddefnyddio'n aml?
- Pa fath o ddigwyddiad cychwynnol fyddai'n debygol o weithio'n dda? e.e. prosiect gweithdy, cynnig arbennig ar brisiau tocynnau, taith o amgylch cefn y llwyfan, cyfarfod â'r artistiaid

## Cymorth ar y cyd

- Sut y gellir cynnwys pobl anabl?
- A oes cyfle i'r ddau sefydliad / grŵp gydweithio? (gweler: Gweithio mewn Partneriaeth gyda Sefydliadau Pobl Anabl)



## Amser

- Ar ba amseroedd/diwrnodau'r wythnos y byddai pobl fwyaf tebygol o fynychu?

## Trafnidiaeth

- A oes gan y rhan fwyaf o bobl fynediad i'w trafnidiaeth eu hunain?
- A yw pobl yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn bennaf?
- A yw'r grŵp yn trefnu lifft / bws?

## Cyhoeddusrwydd

- A oes unrhyw faterion penodol yn ymwneud â mynediad i gyhoeddusrwydd?
  e.e. math o brint a ffont, defnydd o ddelweddau, electronig neu bapur neu ar dâp

## Cyfathrebu

- Sut y byddai pobl yn tueddu i gysylltu â'ch sefydliad er mwyn gwneud ymholiadau neu i archebu tocynnau? E.e. Meddyliwch am y camau y byddai'n rhaid i bobl eu dilyn er mwyn archebu sedd â mynediad i gadair olwyn
- A oes angen cadw lle parcio hygyrch?

## Ar ôl yr ymgynghoriad

Cadwch mewn cysylltiad; bydd help eich cysylltiadau yn hynod werthfawr ar gyfer denu cynulleidfaoedd newydd i'ch digwyddiadau.

# Deunyddiau darllen pellach

Mae'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** wedi cyhoeddi canllawiau ar Ymgysylltu a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb
www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/publication_pdf/Engagement%20and%20the%20equality%20duty.pdf

# Gweithio gyda Chyflogeion ac Artistiaid Anabl

Yn ôl cyfrifiad 2011, pobl anabl yw bron i chwarter poblogaeth Cymru - ond mae llai na 3% y bobl a gyflogir ym myd y celfyddydau yn bobl anabl.

Mae pobl anabl wedi arfer bod yn greadigol ynghylch sut y maent yn trefnu eu bywydau; gall gwahanol ffyrdd o weithio ac ymagweddau creadigol newydd fod o fudd mawr i'r celfyddydau.



ScreenAbility ym Mharc Cwm Darren, ger Bargoed ym mis Hydref 2007

# Recriwtio

## Pwyntiau gweithredu

- Gwiriwch gynllun yr hysbyseb swydd. Bydd hysbyseb sy'n hawdd i'w ddarllen yn denu mwy o geisiadau
- Ysgrifennwch yr hysbyseb mewn ffordd a fydd yn annog pobl anabl i ymgeisio amdani ee "Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl anabl, nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt yn Mountainside Arts ar hyn o bryd"
- Hysbysebwch yn y wasg anabl a'r wasg celfyddydau i bobl anabl a defnyddiwch e-lythyrau a hysbysfyrddau
- Rhowch ddewis eang o opsiynau i ddarpar ymgeiswyr gysylltu â'r sefydliad ee ffôn, ffacs, e-bost, post
- Pecyn cais ar gael yn electroneg, ar dâp sain a phrint bras yn ogystal ag ar bapur
- Gwahoddwch geisiadau trwy'r cyfryngau hyn hefyd
- Gwiriwch y meini prawf hanfodol a dymunol ar gyfer y manyleb person e.e. A oes gwir angen i'r ymgeisydd allu gyrru?
  Ydy hi'n ddigonol eu bod yn barod i deithio? Mae'n bosibl na all pobl anabl yrru am nifer o resymau, ond efallai eu bod yn cyflogi gyrrwr, neu'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
- Gofynnwch i bob ymgeisydd sydd ar y rhestr fer roi gwybod i chi os oes angen trefnu mynediad penodol ar gyfer y cyfweliad, a gwnewch drefniadau fel bo'r angen
- Anfonwch wybodaeth ynglyn â mynediad i'r swyddfa / lleoliad
  Dylai pob ymgeisydd dderbyn y wybodaeth hon. Os yw eich swyddfa neu gefn y llwyfan yn hygyrch yna dylid tynnu sylw at hynny!
- Yn y cyfweliad gofynnwch i bob ymgeisydd a oes ganddynt anghenion mynediad yn y gwaith - neu, "A oes unrhyw beth penodol y byddwch ei angen ar gyfer mynediad i'r gweithle, neu a oes rhywbeth penodol y gallwn ni fel cyflogwyr ei wneud?"

**Wyddech chi? Mae gan yr Adran Gyflogaeth Gynllun Mynediad i'r Gwaith er mwyn helpu gyda chostau sy'n gysylltiedig â chyflogi person anabl.**

# Gweithio gydag artistiaid anabl

Gall artistiaid, perfformwyr, awduron, arweinwyr gweithdai anabl weithio gyda'ch sefydliad ambell dro. Yn aml bydd rhaglennu gwaith gan artistiaid anabl yn help i ddatblygu cynulleidfa o bobl anabl.

## Pwyntiau gweithredu

- Anfonwch wybodaeth am fynediad i'r lleoliad. Dylai pob artist sy'n ymweld â'r lleoliad dderbyn y wybodaeth hon. Amlygwch unrhyw nodweddion mynediad penodol, a byddwch yn onest am y cyfleusterau. Os oese angen dringo tair gris i gael mynediad i ran arbennig o'r adeilad yna dywedwch hynny.
- Gofynnwch i bob artist sy'n ymweld â'r lleoliad a oes ganddynt anghenion mynediad, hyd yn oed os nad yw pobl wedi dweud eu bod yn anabl.
- Os ydych yn ansicr o'r union ofynion, holwch y person dan sylw ymhell ymlaen llaw.
- Rhowch wybod i'r bobl berthnasol yn eich sefydliad beth yw gofynion mynediad yr artist.
- Holwch yr artist pan fydd yn cyrraedd ac yn ystod y prosiect neu'r ymweliad i sicrhau bod y trefniadau mynediad yn addas.

# Arfer gorau

Dylai pob sefydliad gynnal archwiliad blynyddol o anghenion mynediad eu staff a'u hymddiriedolwyr. Dylid gofyn yr un cwestiwn i bob person, hyd yn oed os nad ydynt wedi nodi eu bod yn anabl.

- Wrth gynllunio'r archwiliad, sicrhewch fod eich cwestiynau yn canolbwyntio ar fynediad / anghenion y gweithiwr / beth all y cyflogwr ei wneud.
- Peidiwch â chanolbwyntio ar faterion meddygol. Ni fydd gofyn "beth sy'n bod arnoch chi?" yn eich helpu i sicrhau bod y mynediad yn gywir. Mae gan bob unigolyn anghenion penodol, ac efallai y byddant yn wahanol i'r hyn yr oeddech yn tybio.

**Mynediad i Waith**
www.gov.uk/access-to-work/overview

**Fforwm Anabledd Byd Busnes**
www.businessdisabilityforum.org.uk/about-us

# Rhaglennu gwaith wedi'i arwain gan bobl anabl

Mae poblogrwydd Celfyddydau i Bobl Anabl - gwaith sy'n cael ei gynhyrchu a'i arwain gan bobl anabl, ac sy'n adlewyrchu diwylliant pobl anabl - yn cynyddu yng Nghymru. Mae amryw o artistiaid anabl adnabyddus yn y DU yn mynd â'u gwaith ar daith, ac mae cynnydd yn nifer yr artistiaid a'r perfformwyr anabl yng Nghymru.

Pwysigrwydd Celfyddydau i Bobl Anabl yw ei fod yn rhoi'r celfyddydau mewn persbectif hollol newydd - prin fod llais pobl anabl wedi cael ei glywed yn y ffordd yma o'r blaen. Mae Celfyddydau i Bobl Anabl yn agwedd arall ar amrywiaeth diwylliannol.

Mae digwyddiadau Celfyddydau i Bobl Anabl yn tueddu i fod yn well mewn trefi a dinasoedd lle ceir mwy o bobl anabl, a lle mae trafnidiaeth yn debygol o fod yn well. Serch hynny, bydd pobl anabl yn teithio i ddigwyddiadau mewn ardaloedd gwledig os byddant wedi eu marchnata'n dda, ac os yw'r mynediad i'r digwyddiad yn dda.



ScreenAbility ym Mharc Cwm Darren, ger Bargoed ym mis Hydref 2007

## Pwyntiau gweithredu

**Byddwch yn glir ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng Celfyddydau i Bobl Anabl, Celfyddydau ac Anabledd a Chelfyddydau mewn Iechyd: gweler Beth yw Celfyddydau i Bobl Anabl? ar dudalen 26**

- Chwiliwch am esiamplau o gelfyddydau i bobl anabl ar y rhyngrwyd
- Darllenwch gylchgronau ac erthyglau sy'n trafod diwylliant pobl anabl
- Siaradwch â Celfyddydau Anabledd Cymru

### Pa artistiaid?

- Siaradwch â sefydliadau celfyddydol eraill sydd wedi rhaglennu'r math o berfformwyr ac artistiaid sydd gennych chi mewn golwg
- Cysylltwch â fforymau celfyddydau i bobl anabl ledled y DU - gofynnwch am argymhellion
- Cysylltwch â Celfyddydau Anabledd Cymru

### Cynlluniwch ymlaen llaw

- Archebwch yr artistiaid ymhell ymlaen llaw er mwyn rhoi digon o amser i ddatblygu cynulleidfa
- Ceisiwch ganfod pa fath o gynulleidfa y mae'r perfformwyr yn ei denu fel arfer
- Cymerwch amser i ddatblygu eich cysylltiadau gyda grwpiau a sefydliadau perthnasol, yn enwedig y rhai yn eich dalgylch arferol

### Mynediad

- Gwiriwch anghenion mynediad yr artistiaid ac anghenion mynediad y gynulleidfa
- Caniatewch amser i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i fynediad; yn aml, gall newidiadau bach i fynediad wneud gwahaniaeth mawr. Os nad yw hyn yn bosibl, chwiliwch am leoliad arall sy'n fwy hygyrch

### Hyfforddiant

- Sicrhewch fod staff yn cael hyfforddiant a gwybodaeth addas

## Cyhoeddusrwydd

- Rhowch gyhoeddusrwydd i'r digwyddiad mewn rhwydweithiau celfyddydau i bobl anabl a'r wasg i bobl anabl. Mae gan amryw o'r sefydliadau celfyddydol yn y dolenni isod gylchlythyron rheolaidd a/neu e-lythyron
- Diweddarwch gysylltiadau â sefydliadau pobl anabl yng Nghymru, yn enwedig yn eich dalgylch, a hysbysebwch y digwyddiad mewn da bryd
- Gall Celfyddydau Anabledd Cymru helpu gyda marchnata, ac o bosibl roi cyngor ar fynediad ac ar amryw o faterion yn ymwneud ag ymarferoldeb trefnu'r digwyddiad.

## Ddim yn siŵr?

- Ystyriwch weithio mewn partneriaeth â sefydliad celfyddydou i bobl anabl neu sefydliad i bobl anabl

## Sefydliadau'r Celfyddydau Anabledd

(mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cyhoeddi e.lythyrau ar gyfer aelodau ac mae ganddynt dudalennau Facebook)

**Celfyddydau Anabledd Cymru:** www.disabilityartscymru.org

**DASh (Celfyddydau Anabledd Sir Amwythig):** www.dasharts.org

**DaDa Fest:** www.dadafest.co.uk

**Celfyddydau Anabledd Ar-lein:** www.disabilityartsonline.org.uk

**Disability Now – misol:** www.disabilitynow.org.uk

**Mailout** – www.mailout.co.uk

**Digwyddiadur – bob yn ail fis:** www.disabilityartscymru.org

**Fforwm y Celfyddydau ac Anabledd:** www.adf.ie

**Celfyddydau ac Anabledd Iwerddon:** www.adiarts.ie

# Datblygu Cynulleidfaoedd Byddar

Mae'r term Byddar yn cael ei ddefnyddio yma i ddisgrifio pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu hiaith gyntaf - pobl sy'n rhan o'r gymuned Fyddar.

Mae hunaniaeth ddiwylliannol gref o fewn y gymuned Fyddar. Bydd pobl fyddar yn dod i wylio perfformwyr Byddar (digrifwyr, actorion, artistiaid caneuon wedi'u harwyddo ac ati). Mae hyn yn wahanol iawn i gael dehonglwyr iaith arwyddion ar gyfer digwyddiad gydag actorion, llefarwyr neu arweinwyr gweithdai sy'n clywed.

Yr hyn sy'n allweddol i ddatblygu cynulleidfaoedd Byddar yw gweithio mewn partneriaeth â sefydliad neu grŵp lleol neu genedlaethol i bobl Fyddar. Bydd y sefydliad hwnnw'n gallu rhoi cyngor ar berfformwyr, mynediad, cyfieithwyr a marchnata. Bydd cynnwys sefydliad sy'n cael ei arwain gan y Byddar yn annog pobl fyddar i fynychu.

## Pwyntiau Gweithredu

### Sefydliad neu grŵp sy'n bartner;

- Nodwch bartneriaid ymhell ymlaen llaw
- Chwiliwch am sefydliad sy'n cael ei arwain gan bobl fyddar megis Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru

### Cyfathrebu

- Efallai y bydd yn rhaid archebu dehonglwyr pan fyddwch yn cyfarfod â phobl Fyddar yn ystod y camau cynllunio
- Gwiriwch sawl dehonglwr fydd ei angen ar gyfer y digwyddiad, gan egluro beth fydd angen iddynt ei wneud
  e.e. Dehongli o lais i Iaith Arwyddion Prydain
  Dehongli o Iaith Arwyddion Prydain i lais (trosleisio)
  Cyfieithu ar lwyfan, yng nghefn llwyfan, mewn gweithdy, ym mlaen y tŷ, yn ystod amseroedd cymdeithasu

### Math o artist

- Gwnewch yn siwr eich bod yn archebu'r act gywir ar gyfer y gynulleidfa rydych yn ei thargedu
- Bydd perfformwyr sy'n defnyddio iaith arwyddion yn apelio at y gymuned Fyddar (defnyddwyr iaith arwyddion)

## Archebu ac ymholiadau cyn y digwyddiad

Rhowch gyhoeddusrwydd i opsiynau ar gyfer cysylltu â'ch sefydliad:

- E-bost
- Ffacs
- Negeseuon testun (i rif ffôn symudol penodedig)
- Minicom
- Post
- Galw i mewn i'r swyddfa

## Blaen y tŷ

- Trefnwch fod o leiaf un person ym mlaen y tŷ yn rhugl yn Iaith Arwyddion Prydain*. Os nad oes aelod o'ch staff yn rhugl yn Iaith Arwyddion Prydain, trefnwch i ddehonglwr fod yn bresennol ym mlaen y tŷ.

  * Iaith Arwyddion Prydain yn iaith gyntaf NEU Iaith Arwyddion Prydain Lefel 3

**Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yng Nghymru**
d/o NewLink Wales, Meridian Court
Heol y Gogledd
Caerdydd
CF14 3BE
E-bost: bda@bda.org.uk
Gwefan: www.bda.org.uk

**Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain**
http://www.royaldeaf.org.uk/

**Celfyddydau Anabledd Ar-lein**
http://www.disabilityartsonline.org.uk/
a chwiliwch am Gelfyddydau i Bobl Fyddar

**Shape**
www.shapearts.org.uk
wedyn cliciwch ar 'Deaf Arts'

## Beth am gynulleidfaoedd o bobl wedi'u byddaru neu bobl trwm eu clyw?

Gall pobl wedi'u byddaru a phobl drwm eu clyw fynych grŵp neu glwb, ond maent yn llai tebygol o wneud hynny na defnyddwyr iaith arwyddion. Mae diwylliant pobl sydd wedi'u byddaru neu sy'n drwm eu clyw yn fwy tebygol o fod yn debycach i bobl sy'n gallu clywed.

Gall perfformiwr sy'n Drwm ei Glyw sy'n defnyddio ei lais apelio at rai cynulleidfaoedd o bobl trwm eu clyw neu bobl wedi'u byddaru, ond dylid canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â mynediad.

- Os yw bobl sydd wedi'u byddaru neu sy'n drwm eu clyw yn debygol o fynychu'r digwyddiad, efallai y bydd angen y canlynol arnoch:
    - teipio ar y pryd (a elwir yn balanteip weithiau)
    - dolen glywed
    - gwefuslefarwyr (yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad)
    - perfformiadau ag is-deitlau
    - crynodeb o'r sioe
    - nodiadau i lefarwyr ymlaen llaw

**Cymdeithas Genedlaethol y Bobl sydd wedi Colli eu Clyw**
http://www.nadp.org.uk/

**Hearing Link**
www.hearinglink.org/

**Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**
http://www.wcdeaf.org.uk/

# Gweithdai Hygyrch

Os ydych am redeg gweithdai sydd â'r nod o gynnwys a rhoi mynediad i bawb, neu weithdai ar gyfer pobl anabl yn benodol, dewiswch arweinwyr eich gweithdai yn ofalus. Mae ymarferwyr gyda phrofiad o gynnal gweithdai sy'n rhoi mynediad i bobl anabl i'w cael ym mhob maes o'r celfyddydau. Bydd profiad yr ymarferwyr yn gwahaniaethu'n sylweddol, felly mae'n well cael argymhellion gan sefydliadau celfyddydol sydd wedi gwneud gwaith tebyg, neu gan sefydliadau i bobl anabl fyddai'n debygol o fod wedi bod yn rhan o brosiectau celfyddydol o'r blaen.

Mae mynediad yn ymwneud a chyfathrebu, goleuo, cynhesrwydd, acwstig a llefydd parcio yn ogystal â lloriau gwastad a thoiledau hygyrch. Gall ystafell gyda wal wydr a llawr disglair fod yn hunllef i bobl gyda nam ar eu golwg. Yn yr un modd, gall acwstig sy'n bownsio i bob cyfeiriad greu anawsterau i bobl sy'n defnyddio offer clywed a phobl sy'n sensitif i swn. Mae'n werth cymryd amser i wneud yn siwr bod y sesiwn yn cael ei chynnal mewn lle hygyrch, ac y bydd pawb yn gallu cyfathrebu'n hawdd.

## Pwyntiau gweithredu

### Camau cynllunio

- Nodwch yn glir beth yw amcanion y gweithdai
- Nodwch grwpiau targed (os oes rhai)
- Gofynnwch am argymhellion gan sefydliadau celfyddydol eraill
- Gofynnwch am argymhellion gan sefydliadau i bobl anabl

### Pan fydd arweinwyr y gweithdai wedi eu pennu

- Siaradwch â hwy am y math o fynediad cyffredinol y bydd y cyfranogwyr yn debygol o fod ei angen
- Gofynnwch a oes gan arweinydd y gweithdy anghenion mynediad penodol
- Gwiriwch fynediad y lleoliad gydag arweinydd y gweithdy
- Nodwch y newidiadau sydd angen eu gwneud cyn y gweithdy e.e. goleuo, cadeiriau, arwyddion dros dro
- Cynhyrchwch ddeunydd cyhoeddusrwydd hygyrch ac addas

## Pan fydd pobl yn archebu lleoedd ar gyfer y gweithdai

- Rhowch fanylion syml am fynediad ee trafnidiaeth, parcio, mynediad i gadair olwyn
- Gofynnwch i'r cyfranogwyr a oes ganddynt anghenion mynediad penodol
- Os bydd rhywun yn gofyn am ddarpariaeth benodol yn ymwneud â mynediad, byddai'n well cadarnhau hynny gyda'r person cyn gwneud trefniadau

## Wrth baratoi lleoliad y gweithdy

- Sicrhewch fod mannau parcio ar gyfer pobl anabl yn cael eu cadw'n glir
- Symudwch unrhyw berygl neu rwystr a all beri i rywun faglu
- Gwnewch yn siŵr bod arwyddion yn cael eu harddangos (maent yn hawdd i'w cynhyrchu ar eich cyfrifiadur)
- Addaswch oleuadau / gwres / cadeiriau
- Gosodwch yr ystafell fel bod pobl yn gallu gadael eu cotiau a'u bagiau'n hawdd
- Gwnewch yn siŵr bod lluniaeth yn hawdd i'w gyrraedd NEU sicrhewch fod staff ar gael i'w weini

## Pan fydd pobl yn cyrraedd

- Os ydych wedi trefnu mynediad penodol ar gyfer unrhyw un, gofynnwch iddynt a yw popeth yn iawn

## Tra bydd y prosiect yn mynd rhagddo

- Gwnewch yn siŵr eich bod ar gael i siarad â phobl ar ddechrau'r sesiwn neu ar ei diwedd
- Bydd y gallu i gyfathrebu'n hawdd yn annog pobl i roi gwybod i chi am unrhyw broblem gyda mynediad cyn iddi ddod yn broblem anorchfygol

## Pan fydd y prosiect wedi dod i ben

- Gwnewch yn siŵr bod system adborth / gwerthuso ar gael sy'n hygyrch i bawb
- Nodwch fynediad fel pwnc ar y ffurflen adborth / gwerthuso

# Gwneud Gwelliannau i fynediad ffisegol

Ar gyfer yr arferion gorau mewn materion mynediad, meddyliwch y tu hwnt i gydymffurfio â'r Ddeddf. Bydd unrhyw welliannau i fynediad ffisegol o les i'ch ymwelwyr, staff ac artistiaid, ac yn ffordd o ddenu cynulleidfa llawer ehangach.

Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol o rai o'r newidiadau sydd angen eu gwneud, ond mae'n syniad da cynnal archwiliad syml o fynediad yn gyntaf. Gelir prynu templed archwilio ar gyfer mynediad i adeiladau gan sefydliadau megis y Centre for Accessible Environment. Dylech gynnwys pobl anabl bob tro wrth gynnal archwiliad o fynediad.

Mae mynediad i fannau cyhoeddus yn bwysig, ond dylech dalu'r un sylw i fynediad i gefn y llwyfan, mannau ymarfer, gweithdai, swyddfeydd ac ystafelloedd cyfarfod.

Y tebygrwydd yw na fydd unrhyw leoliad yn cynnig mynediad perffaith i bawb. Gall rhoi gwybodaeth onest a manwl ynglŷn â mynediad alluogi pobl i wneud eu penderfyniad eu hunan ynglŷn ag ymweld â'r safle neu weithio yno.

## Pwyntiau Gweithredu

### Cynllunio

- Ymchwiliwch i leoliad, mesuriadau, deunyddiau, costau
- Ymgynghorwch â sefydliadau i bobl anabl, grwpiau gwirfoddol a chwsmeriaid anabl
- Cyfeiriwch at gyhoeddiadau gydag enghreifftiau o arferion gorau
- Ymwelwch â lleoliad â safonau mynediad da (gofynnwch i bobl anabl beth y byddent yn ei argymell)
- Nodwch ffynonellau ariannu
- Ewch ati i godi arian

### Gwaith sy'n mynd rhagddo

- Rhowch wybod i'r cwsmeriaid am y gwelliannau sydd wedi eu cynllunio
- Nodwch sefydliadau a grwpiau o bobl anabl a allai fod â diddordeb mewn gwella mynediad
- Gwiriwch hygyrchedd i gyhoeddusrwydd newydd ar gyfer grwpiau targed

## Gwaith wedi'i gwblhau

- Cynhyrchwch gyhoeddusrwydd sy'n amlinellu'r cyfleusterau newydd mewn fformat a chynllun addas
- Rhowch wybod i gwsmeriaid rheolaidd a chysylltiadau newydd
- Ystyriwch gynnal digwyddiad am bris gostyngol neu am ddim i lansio'r cyfleusterau



ScreenAbility ym Mharc Cwm Darren, ger Bargoed ym mis Hydref 2007

## Deunyddiau darllen pellach

**Designing for Accessibility***
Alison Grant, 2012 (ISBN 978 1 85946 364 2)

**Access Audit Handbook 2013***
Alison Grant (ISBN 978 1 85946 492 2)

**Museums and Art Galleries: Making Existing Buildings Accessible ***
Adrian Cave 2007 (ISBN 978 1 85946 175 4)

Mae'r rhain oll ar gael o'r Ganolfan ar gyfer Amgylcheddau Hygyrch
www.cae.org.uk

**Building Sight**
Llawlyfr o atebion adeiladu a dylunio ystafelloedd er mwyn cynnwys anghenion pobl â phroblemau gyda'u golwg. I benseiri, dylunwyr a phobl eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig.
PR10683 Print Bras, 180 tudalen, clawr meddal (ISBN 1858780748)
RNIB a'r Llyfrfa, 1995

**Ar gael o siop yr RNIB** www.onlineshop.rnib.org.uk

# Cynorthwywyr Personol / Gweithwyr Mynediad

## Beth mae Cynorthwywyr Personol neu Weithwyr Mynediad yn ei wneud?

Maent yn cael eu cyflogi gan sefydliadau celfyddydol i ganolbwyntio ar faterion mynediad mewn digwyddiadau y mae pobl anabl yn eu mynychu neu'n cymryd rhan ynddynt.

Disgwylir i Gynorthwy-ydd Personol ymgymryd â thasgau megis:

- Gweithredu fel cynorthwy-ydd neu hwylusydd mewn digwyddiadau cyfranogol
- Rhoi gwybodaeth hanfodol i berson anabl mewn ffordd y gallant ei deall
- Symud cadeiriau a byrddau er mwyn trefnu lle gwell
- Casglu deunyddiau / lluniaeth
- Helpu pobl gyrraedd eu diod / bwyd
- Trefnu trafnidiaeth
- Gwneud galwadau ffôn
- Bwydo llinellau i actorion dall a'r rhai â nam ar eu golwg
- Darllen gwaith ysgrifenedig ar goedd
- Ysgrifennu neu gymryd nodiadau
- Tywys person dall neu berson â nam ar eu golwg
- Helpu'r rhai mewn cadair olwyn i symud

## Dyletswyddau nad ydynt yn ofynnol i Gynorthwy-ydd Personol / Gweithiwr Mynediad eu gwneud

- Darparu gofal personol i unigolyn
- Darparu meddyginiaeth neu ofal meddygol arall
- Codi pobl

## Beth sy'n gwneud Cynorthwy-ydd Personol / Gweithiwr Mynediad Da?

- Profiad o weithio gyda phobl anabl yn y gorffennol
- Sgiliau cyfathrebu da
- Sgiliau gwrando da
- Ymateb yn gyflym
- Defnyddio cymhelliant
- Person ymarferol
- Deall bod hwyluso yn rôl sy'n galluogi

## Sawl Cynorthwyydd Personol / Gweithiwr Mynediad fydd ei angen arnoch?

Mae'n dibynnu ar y math o ddigwyddiad a nifer y bobl anabl sy'n debygol o fynychu'r digwyddiad.

### Enghraifft

**Dylai un neu ddau o Weithwyr Mynediad fod yn ddigon ar gyfer gweithdy ysgrifennu gyda deg o bobl anabl ynddo. Os bydd rhai ohonynt angen cymorth penodol megis ysgrifennu neu gymryd nodiadau drwy gydol y sesiwn yna efallai y bydd angen rhagor.**

Gall Celfyddydau Anabledd Cymru eich cynghori ymhellach.

## Dod o hyd i Gynorthwy-ydd Personol / Gweithiwr Mynediad

Ar hyn o bryd nid oes hyfforddiant penodol ar gyfer gweithwyr mynediad yn y celfyddydau. Gofynnwch am gyngor gan sefydliadau celfyddydau i bobl anabl neu sefydliadau celfyddydol eraill sydd wedi cyflogi gweithwyr mynediad ar gyfer digwyddiadau yn y gorffennol.

## Pwyntiau gweithredu

- Os nad ydych wedi gweithio gyda Chynorthwy-ydd Personol / Gweithwyr Mynediad o'r blaen, mae'n syniad ymgynghori â sefydliadau i bobl anabl neu Gelfyddydau Anabledd Cymru yn y lle cyntaf.
- Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer Gweithwyr Mynediad wrth wneud cais am grant

### Pan fyddwch wedi dod o hyd i Weithiwr Mynediad ac wedi archebu ei wasanaeth:

- Anfonwch wybodaeth lawn am y digwyddiad. Dylech gynnwys:
  - amlinelliad o gyfrifoldebau'r unigolyn
  - trefn y digwyddiad neu'r agenda
  - amserlen gydag amseroedd dechrau a gorffen
  - cyfarwyddiadau a pharcio
  - manylion cyswllt ar gyfer staff allweddol
- Ar y rhestr mynychwyr, dylid rhestru'r Gweithwyr Mynediad ar wahân, yn hytrach na'u cynnwys ar restr y cyfranogwyr

### Trefniadau ymarferol yn y digwyddiad

- Dylai'r cynorthwy-ydd personol/gweithwyr mynediad wisgo crys-t neu rywbeth y gellir eu hadnabod. Mae gweithwyr cynorthwyol Celfyddydau Anabledd Cymru yn gwisgo crysau-t glas tywyll gyda llythrennau mawr melyn arnynt. Yn ystod un digwyddiad roedd y cynorthwywyr personol yn gwisgo blodau garlant! Efallai na fydd angen gwneud hyn ar gyfer digwyddiad bychan ond gwnewch yn siwr eich bod yn cyflwyno'r cynorthwywyr personol i bobl ar ddechrau'r digwyddiad.
- Dewiswch berson allweddol i fod yn gyfrifol am drafod â'r Gweithwyr Mynediad yn ystod y digwyddiad
- Cyn i'r digwyddiad ddechrau, ewch â'r gweithwyr mynediad ar daith o amgylch yr adeilad er mwyn iddynt wybod lle i ddod hyd i bopeth.
- Lluniaeth: Dylech gynnwys y Gweithwyr Mynediad wrth archebu lluniaeth a bwyd ar gyfer y cwmni a'r criw.

## Cysylltwch â

**Chelfyddydau Anabledd Cymru**
Ffôn: 029 2055 1040   e-bost: post@dacymru.com

# Ffurflen Archebu Gweithdy (Enghraifft)

Enw: ______________________________

Cyfeiriad: ______________________________

______________________________

Rhif Ffôn: ______________ Ffacs: ______________

E-bost: ______________ Ffôn Symudol: ______________

Sut hoffech i ni gysylltu â chi? Ticiwch:

☐ Ffon ☐ Ffacs ☐ E-bost

☐ Ffôn Symudol ☐ Llythyr

Mae mynediad i gadair olwyn yng Nghanolfan y Celfyddydau. Mae lleoedd parcio penodol ar gyfer gyrwyr anabl. Rhowch wybod i ni os oes angen unrhyw un o'r canlynol arnoch:

☐ Print bras

☐ Gwybodaeth ar ffurf electronig cyn y gweithdy

☐ Dehonglwr iaith arwyddion

☐ Dolen glywed

A fyddwch yn dod â Chynorthwy-ydd Personol/ Gweithiwr Mynediad gyda chi? Y ☐ N ☐

A fyddwch yn dod a Chi Cymorth gyda chi? Y ☐ N ☐

A oes gennych unrhyw anghenion mynediad arall? Rhowch fanylion

______________________________

A oes gennych unrhyw anghenion deiet arbennig? Rhowch fanylion

______________________________

Os hoffech drafod eich anghenion mynediad i'r gweithdy, cysylltwch â ni ar:

Ffôn: XXX XXX Minicom: XXX XXX Ffacs: XXX XXX E-bost: xxxxx@xxxxx

Cyfeiriad: XXX XXX



Unusual Stage School - Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Keith Morris)

# Cymorth cyfathrebu

## Disgrifiadau Clywedol

### Beth yw disgrifiadau clywedol?

Mae'r cyfleuster hwn yn helpu i wneud digwyddiadau gweledol yn hygyrch i bobl ddall a phobl a chanddynt nam ar eu golwg.

Mae disgrifiwr clywedol yn disgrifio gwisgoedd, golygfeydd, symudiadau, mynegiant ar wynebau ac ati mewn modd na fyddai ar gael i bobl fel arall. Gall y disgrifiwr eistedd yn y blwch goleuo neu o leiaf mewn man fydd yn ei alluogi i weld a chlywed y cynhyrchiad. Fel arfer caiff y wybodaeth ei chyfleu i'r sawl sy'n ddall neu a chanddo nam ar ei olwg drwy glustffonau isgoch.

### Camau gweithredu

Os nad ydych wedi defnyddio disgrifiadau clywedol o'r blaen, ymgynghorwch â sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ddall a phobl a chanddynt nam ar eu golwg, neu gyda Celfyddydau Anabledd Cymru.

- Cadarnhewch fod y digwyddiad yn briodol ar gyfer disgrifiad clywedol
- Cadarnhewch fod offer priodol ar gael yn y lleoliad
- Cofiwch gynnwys cyllideb ar gyfer disgrifiadau clywedol mewn ceisiadau am grantiau
- Pan fyddwch yn archebu gwasanaeth disgrifiwr clywedol, cysylltwch â sefydliadau ar gyfer pobl ddall a phobl â nam ar eu golwg mewn da bryd; rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i'r sefydliad

Ar ôl archebu gwasanaeth disgrifiwr clywedol

- Gofynnwch a fydd angen iddo weld y cwmni yn perfformio ymlaen llaw
- Anfonwch fideo o'r perfformiad os oes un ar gael
- Anfonwch wybodaeth lawn am y digwyddiad gan gynnwys:
    - sgript, trawsysgrif o areithiau neu nodiadau siaradwyr
    - trefn y digwyddiad neu'r agenda
    - amserlen gydag amseroedd dechrau a gorffen
    - cyfarwyddiadau a threfniadau parcio
    - manylion cyswllt staff allweddol
- Dylech farchnata'r digwyddiad i bobl ddall a phobl a chanddynt nam ar eu golwg
- Rhowch enw'r disgrifiwr clywedol ar y rhaglen. Noder y dylai disgrifwyr clywedol gael eu rhestru ar wahân mewn cyfarfodydd a chynadleddau, ac ni ddylid eu cynnwys yn y rhestr cynadleddwyr

## Trefniadau ymarferol yn y digwyddiad

- Dylech bennu person allweddol i fod yn gyfrifol am gyd-drafod gyda'r disgrifiwr clywedol yn ystod y digwyddiad
- Trafodwch y cyfleusterau sydd ar gael gyda'r disgrifiwr clywedol a'r technegydd
- Lluniaeth: Dylech gynnwys disgrifiwr clywedol pan fyddwch yn trefnu prydau a lluniaeth ar gyfer y cwmni a'r criw

## Gwybodaeth Bellach

**Audio Description International**
http://adinternational.org

**Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall**
http://www.rnib.org.uk

**Nationwide Audio Description**
http://www.vocaleyes.co.uk

# Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL)/Saesneg a Gwefuslefarwyr

## Beth yw Iaith Arwyddion Prydain (BSL)?

Mae BSL yn iaith yn ei rhinwedd ei hun a chanddi ei gramadeg ei hun. Mae trefn y geiriau'n wahanol i'r iaith lafar.

## Beth yw dehonglwr BSL / Saesneg?

Dehonglwr yw rhywun sydd (o leiaf) yn ddwyieithog ond a chanddo'r gallu ac sydd wedi'i hyfforddi i weithio rhwng dwy iaith a hwyluso cyfathrebu rhwng pobl fyddar a phobl sy'n gallu clywed.

## Terminoleg

Y term cywir yw dehonglwr BSL/Saesneg. Y termau anffurfiol yw dehonglwr BSL neu ddehonglwr iaith arwyddion. Peidiwch â galw dehonglwyr yn 'arwyddwyr'!

## Beth mae dehonglwyr BSL / Saesneg yn ei wneud?

Dehongli o un iaith i'r llall, h.y.: llais i arwyddion, gan roi mynediad i bobl fyddar, ac o arwyddion i lais gan roi mynediad i bobl sy'n gallu clywed. Gelwir dehongli o arwyddion i lais yn 'drosleisio" pan fydd person byddar yn arwyddo; mae'r dehonglwr yn dehongli i'r Saesneg, gan siarad i mewn i feicroffon.

## Pwy sy'n defnyddio dehonglwyr iaith arwyddion?

- Pobl fyddar y mae BSL yn iaith gyntaf iddynt
- Pobl fyddar neu bobl sydd wedi mynd yn fyddar sy'n rhugl mewn BSL, ond y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt
- Pobl sy'n gallu clywed nad ydynt yn defnyddio BSL

**Cofiwch:** Mae rhai digwyddiadau a pherfformiadau yn fwy addas i gael eu deohongli nag eraill; ceisiwch gyngor yn gyntaf os ydych yn ansicr.

Sawl dehonglwr fydd ei angen arnoch?

- Perfformiadau

Bydd rhai dehonglwyr yn dehongli sioe gyfan ar eu pen eu hunain, ond efallai y bydd yn well gan eraill weithio gyda dehonglwr arall; gall ddibynnu ar hyd y sioe a'r math o gynhyrchiad.

- Cyfarfod byr, anffurfiol lle y gellir cymryd egwyl yn rheolaidd

Efallai y bydd un dehonglwr yn ddigon. Fodd bynnag, bydd angen egwyl fer ar y dehonglwr bob 20 neu 30 munud. Trafodwch gyda'r asiantaeth a / neu'r dehonglwr a fydd angen cyd-ddehonglwr. Pan fydd y dehonglwr yn cyrraedd gofynnwch pa mor aml y mae am gael egwyl.

- Cynadleddau neu gyfarfodydd hwy, mwy ffurfiol

Bydd angen o leiaf ddau ddehonglwr. Os bydd mwy nag un person byddar yn mynychu ac os bydd sesiynau llai neu ddewis o weithdai efallai y bydd angen mwy na dau ddehonglwr.

## Dod o hyd i ddehonglwyr

Dim ond pobl a chanddynt gymwysterau a phrofiad addas a fydd ar lyfrau asiantaethau ar gyfer dehonglwyr BSL / Saesneg. Gweler y dolenni isod i gael rhagor o wybodaeth am gymwysterau.

Dim ond ambell ddehonglwr yng Nghymru sy'n brofiadol mewn dehongli ar gyfer y theatr, ac yn aml mae'n rhaid archebu eu gwasanaeth gryn dipyn ymlaen llaw. Os ydych yn edrych am ddehonglwyr ar gyfer gweithdy neu ddarlith, mae dewis ehangach, ond nid oes digon i ddiwallu'r galw. Trefnwch ymhell ymlaen llaw er mwyn osgoi cael eich siomi.

## Pwyntiau gweithredu

- Os nad ydych erioed wedi gweithio gyda dehonglwyr o'r blaen, fe'ch cynghorir i ymynghori â sefydliad i bobl Fyddar neu â Chelfyddydau Anabledd Cymru
- Cadernhewch a fyddai pobl fyddar yn debygol o fynychu'r digwyddiad yr ydych yn ei drefnu
- Sicrhewch eich bod yn cynnwys cyllideb ar gyfer dehonglwyr iaith arwyddion mewn ceisiadau am grantiau
- Cysylltwch ag asiantaeth dehonglwyr iaith arwyddion ymhell ymlaen llaw; rhowch gymaint â phosibl o wybodaeth i'r asiantaeth

Pan fyddwch wedi archeu gwasanaeth dehongli:

- Cadarnhewch a fydd angen i'r dehonglydd/dehonglwyr ymarfer gyda'r cwmni ymlaen llaw neu gael y sgript ymlaen llaw
- Dylid rhoi tocyn am ddim i'r dehonglydd er mwyn iddo allu gwylio'r sioe cyn iddo ddehongli (rhan hanfodol o'r gwaith paratoi).
- Anfonwch fideo o'r perfformiad os bydd un ar gael
- Anfonwch wybodaeth lawn am y digwyddiad, gan gynnwys:
    - sgript, trawsysgrif o areithiau neu nodiadau siaradwyr
    - trefn y digwyddiad neu'r agenda
    - amserlen gydag amseroedd dechrau a gorffen
    - cyfarwyddiadau a threfniadau parcio
    - manylion cyswllt staff allweddol
- Rhowch enwau'r dehonglwyr ar y rhaglen. Noder y dylai dehonglwyr gael eu rhestru ar wahân mewn cyfarfodydd, ac ni ddylid eu cynnwys yn y rhestr cynadleddwyr

## Trefniadau ymarferol yn y digwyddiad

- Dylech bennu person allweddol i fod yn gyfrifol am gyd-drafod gyda'r dehonglwr yn ystod y digwyddiad
- Trafodwch y goleuo a safle'r dehonglwr ar y llwyfan gyda'r dehonglwr, y technegydd a'r cwmni
- Darparwch feicroffon i ddehonglwyr sy'n trosleisio
- Lluniaeth: Dylech gynnwys dehonglwyr pan fyddwch yn trefnu prydau a lluniaeth ar gyfer y cwmni a'r criw

## Cysylltiadau defnyddiol

**Cyngor Cymru i Bobl Fyddar (cymorth cyfathrebu)**
01443 485687 (llais) 01443 485686 (testun) 01443 408555 (ffacs)
mail@wcdeaf.org.uk

**Gwasanaethau cyfathrebu Action on Hearing Loss**
Ffôn: 0845 685 8000 Ffôn testun: 0845 685 8001
E-bost: communication.services@hearingloss.org.uk

**Cymdeithas y Dehonglwyr Iaith Arwyddion**
www.asli.org.uk

**Signature**
www.signature.org.uk/

**Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain**
www.bda.org.uk/

# Gweithio gyda gwefuslefarwyr

## Beth mae Gwefuslefarwyr yn ei wneud?

Maent yn ailadrodd yr hyn a glywant drwy symudiadau gwefusau, mynegiant ar yr wyneb ac ystumiau naturiol. Nid ydynt yn defnyddio eu llais, a dim ond llais y siaradwr y gellir ei glywed.

## Pwy sy'n defnyddio gwefuslefarwyr?

Pobl sy'n drwm eu clyw neu sydd wedi cael eu byddaru ac y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

## Pa bryd y dylid defnyddio gwefuslefarydd?

Mewn cynadleddau, gweithdai, darlithoedd, cyfarfodydd y mae pobl sydd wedi cael eu byddaru neu sy'n drwm eu clyw yn cymryd rhan ynddynt neu'n gweithio ynddynt. Mae'n anarferol iawn i wefuslefarydd hwyluso perfformiad, ond mae hynny wedi digwydd ambell waith yn y gorffennol!

## Dechrau arni

Os nad ydych wedi gweithio gyda gwefuslefarwyr o'r blaen, cysylltwch â sefydliad sy'n gweithio gyda phobl drwm eu clyw neu bobl sydd wedi'u byddaru, neu â Chelfyddydau Anabledd Cymru

## Pwyntiau gweithredu a threfniadau ymarferol

Gweler y rhai ar gyfer dehonglwr iaith arwyddion (tudalennau 58 a 59)

## Cysylltiadau defnyddiol

**Cyngor Cymru i Bobl Fyddar (cymorth cyfathrebu)**
01443 485687 (llais)
01443 485686 (testun)
01443 408555 (ffacs)
mail@wcdeaf.org.uk
www.wcdeaf.org.uk/

**Gwasanaethau cyfathrebu Action on Hearing Loss**
Ffôn: 0845 685 8000
Ffôn testun: 0845 685 8001
E-bost: communication.services@hearingloss.org.uk

**Cymdeithas y Dehonglwyr Gwefusddarllen**
www.lipspeaking.co.uk/

**Signature**
www.signature.org.uk

**Hearing Link**
www.hearinglink.org/

**Hearing Concern**
www.hearingconcern.org.uk/

**Cymdeithas Genedlaethol y Bobl sydd wedi Colli eu Clyw**
www.nadp.org.uk

# Teipio ar y Pryd

## Beth yw teipio ar y pryd?

Mae'r Teipydd ar y Pryd yn teipio'r hyn a lefarir gair am air, a chaiff y testun ei arddangos ar liniadur er mwyn i'r person byddar ei ddarllen. Gellir cysylltu'r gliniadur â thaflunydd a thaflunio'r testun ar sgrîn. Weithiau gelwir Teipio ar y pryd yn Palanteip neu Stenograff.

Gellir darparu trawsysgrif "drafft cyntaf" o'r trafodaethau, ond mae hyn yn ôl disgresiwn y Teipydd ar y Pryd unigol a gellir codi tâl ychwanegol am y gwasanaeth hwn. Os yn bosibl, gofynnwch am y trawsysgrif pan fyddwch yn archebu gwasanaet teipydd ar y pryd.

## Pa bryd y defnyddir teipio ar y pryd?

Efallai y bydd person byddar neu berson sy'n drwm ei glyw a fydd yn mynychu cyfarfod yn gofyn am wasanaeth teipio ar y pryd. Bydd gliniadur yn ddigon os mai dim ond un neu ddau o bobl fydd yn defnyddio'r cyfleuster. Bydd angen i'r teipydd ar y pryd eistedd wrth ymyl y darllenwr.

Gallai sefydliad sy'n cynllunio cynadleddau, seminarau a gweithdai mawr sydd ar agor i'r cyhoedd gynnwys gwasanaeth teipio ar y pryd er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn hygyrch i bawb. Ar gyfer digwyddiadau mwy, dylid cysylltu'r gliniadur â thaflunydd a thaflunio'r testun ar sgrîn wen, neu sgriniau plasma, o fewn cyrraedd y gynulleidfa neu'r cyfranogwyr. Yn y sefyllfa hon, bydd y teipydd ar y pryd yn eistedd ym mlaen y neuadd yn y canol neu i'r ochr ger y taflunydd neu'r cyswllt VGA.

## Sawl teipydd ar y pryd fydd ei angen?

Gallai un teipydd ar y pryd ymdopi â digwyddiad byr o hyd at ddwy awr, ond dylid cynnwys o leiaf un egwyl rhwng 5 a 10 munud o hyd.

Ar gyfer digwyddiadau hwy, bydd angen dau deipydd. Gofynnwch i'r teipydd ar y pryd unigol (naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r asiantaeth) pan fyddwch yn archebu'r gwasanaeth p'un a fydd angen cyd-deipydd arnynt ai peidio.

## Offer teipio ar y pryd

Mae'r teipyddion yn darparu eu bysellfwrdd a'u gliniadur eu hunain.
Efallai y bydd angen i chi ddarparu:

- soced trydan
- tâp ar gyfer gorchuddio ceblau

- bwrdd ar gyfer y gliniadur
- cadair heb freichiau arni i'r teipydd

ac os bydd angen i'r testun gael ei arddangos ar sgrîn fawr:

- taflunydd
- cebl VGA
- sgrîn

## Dod o Hyd i Deipyddion ar y Pryd

Mae dau deipydd ar y pryd cymwys ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen i chi gysylltu â theipyddion ar y pryd yn Lloegr. Cadarnhewch fod y teipyddion wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor ar gyfer Datblygu Cyfathrebu â Phobl Fyddar (CACDP).

Bydd gan yr asiantaethau sy'n darparu dehonglwyr iaith arwyddion a gwefuslefarwyr deipyddion ar y pryd ar eu llyfrau hefyd. Dylech archebu'r gwasanaeth ymhell ymlaen llaw ar gyfer y digwyddiad i osgoi cael eich siomi.

## Camau gweithredu

- Os nad ydych wedi gweithio gyda theipydd ar y pryd o'r blaen, awgrymir eich bod yn ymgynghori â sefydliad ar gyfer pobl fyddar neu â Celfyddydau Anabledd Cymru i ddechrau
- Cadarnhewch a fyddai pobl fyddar neu bobl sy'n drwm eu clyw yn debygol o fynychu'r digwyddiad yr ydych yn ei drefnu
- Cadarnhewch fod teipio ar y pryd yn briodol ar gyfer eich digwyddiad
- Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer teipio ar y pryd mewn ceisiadau am grant
- Cysylltwch â'r asiantaeth ymhell ymlaen llaw; rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl i'r asiantaeth

Pan fyddwch wedi archebu gwasanaeth Teipio ar y Pryd:

- Anfonwch wybodaeth lawn am y digwyddiad, gan gynnwys:
  - sgript, trawsysgrif o areithiau neu nodiadau siaradwyr
  - trefn y digwyddiad neu'r agenda
  - amserlen gydag amseroedd dechrau a gorffen
  - cyfarwyddiadau a threfniadau parcio
  - manylion cyswllt staff allweddol
- Rhowch enwau'r teipyddion ar y pryd ar y rhaglen. Noder y dylai teipyddion ar y pryd gael eu rhestru ar wahân mewn cyfarfodydd a chynadleddau, ac ni ddylid eu cynnwys yn y rhestr cynadleddwyr

## Trefniadau ymarferol yn y digwyddiad

- Dylech bennu person allweddol i fod yn gyfrifol am gyd-drafod gyda'r teipydd ar y pryd yn ystod y digwyddiad
- Trafodwch y goleuo a safle'r teipydd gyda'r teipydd ar y pryd  a'r technegydd gan gadw mewn cof y system sain / yr angen am glustffonau (yn arbennig mewn cynadleddau)
- Lluniaeth: Dylech gynnwys teipyddion ar y pryd pan fyddwch yn trefnu prydau a lluniaeth ar gyfer y cwmni a'r criw

## Gwybodaeth Bellach

**The Association of Verbatim Speech to Text Reporters (AVSTTR)**
Mae ganddi wefan hefyd sy'n cynnwys gwybodaeth bellach a manylion cyswllt STTR www.avstrr.org.uk

**Sefydliad Cofnodwyr Gair am Air Prydain (BIVR)**
A manylion cyswllt STTR
www.bivr.org.uk

**Cyngor Cymru i Bobl Fyddar** (cymorth cyfathrebu)
Ffôn: 01443 485 687
www.wcdeaf.org.uk/

**Action on Hearing Loss**
www.actiononhearingloss.org.uk/about-us/wales.aspx

# Theatr gydag Isdeitlau

Mae theatr ag isdeitlau yn gyfleuster cymharol newydd sy'n darparu isdeitlau ar gyfer perfformiadau byw.

Mae geiriau'r actorion a disgrifiadau o effeithiau sain yn ymddangos ar uned arddangos, sydd fel arfer ar ochr y llwyfan. Ar lwyfan mawr, efallai y bydd dwy uned arddangos, y naill ochr i'r llwyfan.

Caiff y sgript ei rhaglennu i offer penawdau gan isdeitlydd hyfforddedig, sy'n gweithio'n agos gyda'r tîm cynhyrchu cyn y sioe, ac sy'n gweithredu'r isdeitlau yn ystod y perfformiad.

Mae isdeitlo yn gwneud theatr yn hygyrch i lawer o bobl sydd wedi'u byddaru a phobl sy'n drwm eu clyw, ac mae ganddo'r potensial i ddenu cynulleidfa cwbl newydd i'r theatr.

Mae bellach yn bosibl i theatrau yng Nghymru logi unedau isdeitlo, ynghyd â gwasanaethau isdeitlydd hyfforddedig a phrofiadol. Noder fod gan theatr ag isdeitlau oblygiadau o ran marchnata, swyddfa docynnau a staff blaen y tŷ a dylent oll gael eu hyfforddi'n briodol cyn perfformiadau o'r fath.

### I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Stagetext
www.stagetext.co.uk



Unusual Stage School - Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Keith Morris)



Prynhawn o Hwyl - Galeri Caernarfon Cyf / Contact a Family

# Gwybodaeth ategol

## Cyfleusterau mynediad cyffredin

Bydd gofynion mynediad bob amser yn amrywio rhwng unigolion, a byddant hefyd yn dibynnu ar y digwyddiad dan sylw. Isod rhestrir rhai o'r cyfleusterau mynediad mwyaf cyffredin y gofynnir amdanynt, ond nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Mae rhyddid i chi ychwanegu ati yn unol â'ch profiad!

### Lleoliad

#### Allanol

- O fewn cyrraedd yn gyfleus i drafnidiaeth gyhoeddus
- Parcio - gwastad gyda lleoedd wedi'u neilltuo ar gyfer deiliaid bathodynnau oren neu leoedd cadw
- Lloches rhag tywydd gwlyb
- Desg wybodaeth dan do
- Toiledau hygyrch (dylech logi rhai symudol os oes angen)
- Llwybrau gwastad, yn rhydd o rwystrau

#### Mewnol

- Mynediad i gadeiriau olwyn drwy'r adeilad cyfan
- Toiledau y gellir cael mynediad iddynt mewn cadair olwyn
- Dolen glywed / system isgoch
- Seddi hyblyg
- System wresogi / awyru y gellir ei rheoli'n hawdd
- Goleuadau y gellir eu rheoli (cysgodlenni / llenni / sgriniau ac ati.)
- Acwsteg dda

# Darpariaeth ychwanegol

(gall hyn gael ei ddarparu gan y lleoliad neu gan gwmnïau sy'n ymweld)

## Offer

- Dolen glywed neu system isgoch gludadwy
- Chwaraewr sain unigol / MP3

## Gwybodaeth

- Arwyddion cyfeirio mewn print bras
- Arwyddion ar ddrysau / ardaloedd yn y ganolfan
- Rhaglen mewn print bras
- Gwybodaeth gyda phictogramau neu symbolau
- Gwybodaeth ar dâp sain / disg





Unusual Stage School - Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Keith Morris)

# Personél

## Disgrifiwr clywedol

- sy'n rhoi gwybodaeth ar agweddau gweledol y perfformiad i bobl ddall. Caiff y wybodaeth ei chyfleu dros glustffonau isgoch yn yr un modd ag y gwneir ar gyfer cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg)

## Dehonglwr iaith arwyddion

- sy'n cyfieithu'r iaith lafar i Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer pobl fyddar

## Gwefuslefarydd

- sy'n rhoi dehongliad gair am air drwy ddefnyddio patrymau gwefusau er mwyn galluogi pobl fyddar a thrwm eu clyw i ddarllen gwefusau.

## Teipydd ar y Pryd (Palanteipydd)

- sy'n teipio'r iaith lafar gair am air a chaiff y testun ei arddangos ar unwaith ar sgrîn fawr er mwyn i bobl fyddar a thrwm eu clyw allu ei ddarllen (defnyddir hyn gan fwyaf mewn cynadleddau, cyfarfodydd a seminarau)

## Hwylusydd ar gyfer pobl a chanddynt anawsterau dysgu

- sy'n gweithio gyda phobl a chanddynt anawsterau dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn deall gwybodaeth a gweithdrefnau. Bydd unigolion yn dod â'u hwylusydd eu hunain gyda hwy fwy na thebyg, ond dylai trefnwyr gadarnhau hyn ymlaen llaw. Dylid rhoi mynediad am ddim i hwyluswyr.

## Cynorthwywyr Personol / Gweithwyr Mynediad

- Pobl a chanddynt gyfrifoldeb penodol dros fynediad mewn digwyddiadau

## Stiwardiaid wedi'u hyfforddi mewn cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth yn y maes anabledd

- Staff neu wirfoddolwyr yn eich sefydliad sydd wedi cael eu hyfforddi mewn gohebiaeth sy'n ymwneud ag anabledd a gofal cwsmeriaid.

## Deunyddiau darllen pellach

Gweler yr adran ar **Welliannau i Fynediad Ffisegol** am restr o ddeunyddiau darllen a argymhellir.

# Cyhoeddusrwydd a gwybodaeth wedi'i hargraffu

Y mwyaf hygyrch fydd eich deunydd cyhoeddusrwydd a'ch gwybodaeth, y mwyaf y bydd pobl anabl yn dod i wybod am eich digwyddiadau a'u mynychu. Codwch i'r her o gynhyrchu cyhoeddusrwydd sy'n cyfleu eich neges yn ogystal â bod yn hygyrch.

Fel canllaw cyffredinol:

### Defnyddiwch

- Ffont plaen tywyll ar gefndir golau
- Neu ffont melyn neu wyn ar gefndir du neu dywyll - ond nid yw hyn yn gweithio cystal gyda ffontiau bach
- Ceisiwch ddefnyddio sans serif 12 pwynt o leiaf - mae maint yn bwysig, a gorau po fwyaf!
- Papur di-sglein
- Cynllun sy'n hawdd ei ddilyn
- Lluniau clir
- Bylchau dwbl rhwng llinellau
- Testun mewn prif lythrennau a llythrennau bach

### Peidiwch â defnyddio

- TESTUN MEWN PRIFLYTHRENNAU YN UNIG
- Gwybodaeth hanfodol mewn ffont annarllenadwy
- Testun dros luniau
- Lliwiau y mae'n anodd gwahaniaethu rhyngddynt
- Lliwiau sy'n diflannu i'r cefndir

**Dylech gynnwys:**

- Y Gymraeg a'r Saesneg ar dudalennau gwahanol
- Gwybodaeth mynediad gyda symbolau anabledd
- Gwybodaeth onest am fynediad - e.e. "Mae dau ris ger y fynedfa i'r siop, ond mae ramp ar gael - gofynnwch!"
- Gwybodaeth am sut i gyrraedd - gyda map neu ddiagram
- Dewis o fanylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth

# Fformatau eraill

## Gwybodaeth mewn print bras

Mae hyn yn golygu unrhyw beth rhwng sans serif 16pt a 22pt fel Arial neu Tahoma (mae'r enghraifft hon mewn Arial 16pt)

22pt mewn print trwm yw'r ffont fwyaf ar gyfer testun ar bapur A4
(mae'r enghraifft hon mewn Arial 22pt)

Fel rheol gyffredinol, peidiwch â chynnwys lluniau gyda gwybodaeth mewn print bras

Gellir cynhyrchu gwybodaeth a gedwir ar brosesydd geiriau yn hawdd mewn ffont o unrhyw faint dim ond drwy bwyso botwm. Os bydd rhywun yn gofyn am brint bras, gofynnwch beth yw maint y ffont yr hoffent ei gael. Gofynnwch hefyd a ydynt am gael papur o liw penodol.

## Gwybodaeth electronig

Mae'n well gan lawer o bobl anabl dderbyn gwybodaeth yn electronig yn hytrach nag wedi'i hargraffu. Mae gwybodaeth electronig yn hygyrch iawn i bobl ddall a phobl a chanddynt nam ar eu golwg neu bobl a chanddynt ddyslecsia, a allai fod yn defnyddio meddalwedd penodol ar gyfer darllen sgrîn.

- Dogfen gyda thestun plaen heb unrhyw luniau yw'r math mwyaf hygyrch
- Dylech gynnwys gwybodaeth yng nghorff e-bost os yn bosibl
- Dylai atodiadau i e-byst fod mewn testun plaen yn unig
- Peidiwch ag anfon ffeiliau pdf; nid ydynt yn gydnaws â llawer o feddalwedd darllen sgrîn

## Tapiau sain

Mae gwybodaeth ar dâp sain / disg yn ddewis amgen derbyniol i lawer o bobl ddall a'r rhai â nam ar eu golwg

Mae sefydliadau i bobl ddall yn darparu gwasanaeth sy'n cyfieithu testun ysgrifenedig i dâp sain. Holwch ymlaen llaw ynghylch y costau a'r amserlen.

## Braille

Nid yw Braille yn cael ei ddefnyddio mor aml â thapiau sain. Mae'n fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan bobl ddall a phobl â nam ar eu golwg sydd wedi dysgu Braille yn yr ysgol.

Os ydych yn ystyried darparu gwybodaeth mewn Braille, ymgynghorwch â defnyddwyr Braille i ddechrau i ganfod a yw'n briodol.

Mae sefydliadau pobl ddall yn darparu gwasanaeth sy'n cyfieithu testun sydd wedi'i argraff i Braille. Unwaith eto, holwch ymlaen llaw ynghylch y costau a'r amserlen.

## Defnyddio Symbolau

Mae gan Urdd yr Atistiaid Graffig ystod o symbolau mynediad y gellir eu lawrlwytho am ddim **http://www.gag.org/resources/das.php**

Mae gan SPIT -Signed Performance in Theatre symbol ar gyfer perfformiad lle ceir gwasanaeth iaith arwyddion y gellir ei lawrlwytho am ddim
**http://www.spit.org.uk/Logos.asp**

Mae canllawiau Mencap ar gyfer ysgrifennu hygyrch
Am I Making Myself Clear? yn esbonio sut i ddefnyddio lluniau syml i ategu gwybodaeth ysgrifenedig
**http://www.mencap.org.uk/download/making_myself_clear.pdf**

How to Use Easy Words and Pictures - ar gael i'w lawrlwytho am ddim gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol **http://www.equalityhumanrights.com/** ewch i'r adran 'Publications and Resources', cliciwch ar 'Disability', yna cliciwch ar 'General Advice and Guidance'.

Mae CHANGE, sefydliad a gaiff ei redeg gan bobl a chanddynt anawsterau dysgu, yn cynhyrchu cyhoeddiadau yn cynnwys pecyn o symbolau y gellir ei lawrlwytho er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch
**www.changepeople.co.uk/**

## Gwybodaeth bellach

Mae'r RNIB yn cynnig gwybodaeth am fynediad i bobl ddall a phobl â nam ar eu golwg: www.rnib.org

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn cynnig canllawiau ar wybodaeth hygyrch: www.bdadyslexia.org.uk/ wedyn cliciwch ar 'Dyslexia Style Guide'
.



# Gwefannau

Mae'r rhyngrwyd yn gallu darparu mynediad at wybodaeth ar raddfa na welwyd erioed o'r blaen. Wrth eistedd yn gysurus yn ein cartrefi ein hunain, trwy wasgu ambell i fotwm, gallwn gael gwybodaeth am yr ŵyl, dewis pa berfformwyr rydyn ni am eu gweld, a bwcio'r tocynnau.

Lle bo gwefan yn rhan o ddarpariaeth gwasanaethau unrhyw sefydliad, mae darparu'r gwasanaeth yn dod o fewn cwmpas Deddf Cydraddoldeb 2010. Os taw'r wefan ei hun yw'r prif gyfrwng ar gyfer cyflawni gwasanaethau, mae hi'n hanfodol bwysig bod y wefan honno'n hygyrch. Felly, dylai holl ddarparwyr y celfyddydau edrych yn ofalus i weld pa mor hygyrch yw eu gwefannau, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

Wrth gynllunio neu ddatblygu eich gwefan, cofiwch:

- Ei bod hi'n bosibl y bydd angen i bobl sydd â nam ar eu golwg addasu maint y testun, neu y byddai'n well ganddynt weld fformat darllen yn unig heb ddelweddau.
- Gallai baneri sy'n fflachio gyfaddawdu hygyrchedd y wefan i bobl ag epilepsi.
- Mae rhai pobl yn gwelywio gan ddefnyddio sgrin gyffwrdd yn unig – ystyriwch sut mae'r dolenni a'r tudalennau'n cael eu trefnu.
- Gallai darnau hir o destun fod yn anhygyrch i bobl â dyslexia.

Dylech ystyried ac ymchwilio mor eang â phosibl, gan edrych ar wefannau amryw o sefydliadau anabledd.

BS8878:2010 - safon Brydeinig yw hon sy'n amlinellu fframwaith ar gyfer hygyrchedd y we wrth ddylunio neu gomisiynu gwefannau. Mae Cynllun Gweithredu ar e-Hygyrchedd Llywodraeth y DU yn cydnabod y safon: www.gov.uk

BS8878:2010 - mae'r safon ar gael o siop bsi www.shop.bsigroup.com

# Polisi Prisio ar gyfer Consesiynau

Dylai sefydliadau celfyddydol ystyried cynnig consesiynau i bobl anabl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fydd sefydliad yn gofyn i rywun fynychu gyda pherson anabl.

  Mae rhai lleoliadau'n gofyn i rywun fynychu digwyddiadau gyda rhywun mewn cadair olwyn neu rywun dall oherwydd "rheoliadau tân". Yn yr achos hwn, nid yw mynychu ar ei ben ei hun yn ddewis sydd ar gael i'r person anabl, felly dylid rhoi tocyn am ddim i'r sawl fydd yn dod gydag ef, beth bynnag fo'r consesiynau eraill sydd ar gael i'r person anabl (gweler yr enghreifftiau isod)

- Pan fydd y dewis o seddau (mewn lleoliad) neu lwybr (mewn oriel neu ŵyl) yn gyfyngedig

  Os yw dewis o seddau neu lwybr hygyrch yn gyfyngedig, dylid cynnig consesiynau. Ni ddylai'r prisiau fod yn uwch na phris y tocyn rhataf sydd ar gael. Dylai'r consesiwn hwn fod ar gael i gydymaith person anabl hefyd.

- Pan fydd angen i berson anabl brynu sedd ddrutach er mwyn mwynhau'r perfformiad

**Enghreifftiau:**

- Bydd angen i bobl fyddar eistedd yn y blaen er mwyn gweld dehonglydd iaith arwyddion, neu efallai y bydd angen iddynt eistedd mewn man penodol er mwyn defnyddio'r ddolen glywed neu i weld theatr neu ffilm ag isdeitlau.
- Efallai y bydd angen i bobl ddall eistedd mewn man lle y gellir defnyddio clustffonau isgoch er mwyn defnyddio cyfleuster disgrifiadau clywedol.
- Efallai y bydd angen i bobl anabl eistedd yn agos i'r blaen er mwyn gweld neu glywed yn well hyd yn oed os na ddefnyddir cyfleuster fel dehongli neu ddisgrifiadau clywedol.

  Efallai mai'r seddau hyn fydd y rhai drutaf, ond dylid codi'r pris rhataf amdanynt. Dylai'r consesiynau fod ar gael i gydymaith y person anabl hefyd.

- Os na all person anabl fynychu heb gydymaith

  Er enghraifft, efallai na fydd rhai pobl a chanddynt anawsterau dysgu yn gallu mynychu heb eu gweithiwr cymorth. Yn ddelfrydol dylai'r gweithiwr cymorth allu mynychu am ddim.

Gellid nodi yn y polisi: "Rydym yn cynnig tocyn am ddim i un cydymaith fynychu gydag oedolyn anabl na fyddai'n gallu mynychu'r digwyddiad fel arall."

Mae 'Cydymaith' yn derm cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at Gynorthwy-ydd Personol, Gweithiwr Cymorth neu Ofalwr.

**Enghreifftiau o sut y gallai hyn weithio:**

- Derbyniwch air y cwsmer bod angen iddo ddod â chydymaith gydag ef
- Nodwch y dylid archebu tocynnau ymlaen llaw. Rhaid i gydymaith naill ai fod yn cael ei gyflogi gan y person anabl, neu'n aelod arferol o'i dîm cymorth.

  Cofiwch nad yw pob person anabl yn cyflogi cynorthwyydd personol ac nad oes gan bob person anabl weithiwr cymorth penodedig, felly gallai'r opsiwn hwn eithrio rhai pobl.
- Mewn rhai achosion gall cydymaith y person anabl fod yn aelod o'r teulu, felly mae angen i chi fod yn glir o ran sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol. Fel arfer, bydd oedolyn yn dod gydag phlentyn beth bynnag, p'un a yw'r plentyn yn anabl ai peidio. Felly, ni fyddai'r consesiwn yn berthnasol i riant y plentyn, aelod arall o'r teulu neu 'oedolyn cyfrifol'.

  Gallai pennu uchafswm oedran ar y cyfleuster helpu; er enghraifft, os mai eich polisi cyffredinol yw y gall person ifanc 16 oed a throsodd fynychu heb oedolyn yn gwmni iddo, yna dylai'r consesiwn tocyn am ddim fod yn berthnasol i gydymaith y person anabl sy'n 16 oed a throsodd.

- Pan gaiff consesiynau eu cynnig i uwch ddinasyddion, myfyrwyr a phobl ddi-waith, dylent hefyd gael eu cynnig i bobl anabl.

  Y lleoliad sydd i benderfynu a oes angen prawf statws ai peidio, ond gallai hyn fod yn anodd i rai pobl anabl. Dylai polisi'r lleoliad fod yn glir ynghylch a ganiateir consesiynau os nad oes gan berson anabl brawf o'i statws.

## Polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer

Dylai pob rheolwr, staff y swyddfa docynnau a staff blaen tŷ fod yn ymwybodol o bolisi ac ymarfer y sefydliad o ran consesiynau. Mae'n hanfodol bod y materion hyn yn cael eu cyfleu'n glir a bod y staff yn ymwybodol pwy sydd â'r cyfrifoldeb mewn sefyllfaoedd penodol.

# Hyfforddiant

Gall hyfforddiant yn ymwneud ag anabledd fod yn ddefnyddiol o ran helpu'r sefydliad i fynd i'r afael ag ystod o faterion anabledd. Dylai pob cwrs hyfforddi ar gydraddoldeb ac anabledd i staff a gwirfoddolwyr gynnwys cynrychiolwyr o'r tîm rheoli. Bydd cwrs hyfforddi da yn annog cyfranogwyr i gyfrannu ar sail eu profiadau eu hunain, a bydd presenoldeb rheolwyr yn sicrhau y gall syniadau sy'n deillio o'r hyfforddiant gael eu rhoi ar waith.

## Enghreifftiau o hyfforddiant:

**Hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl (DET)**
Mae DET yn mynd i'r afael â'r darlun mawr o ran materion anabledd mewn perthynas â datblygiad sefydliadol. Mae DET yn helpu sefydliad i nodi'r rhwystrau ac edrych ar ffyrdd o gydweithio er mwyn gwneud newidiadau. Os bydd pob aelod o'r bwrdd a'r staff yn mynychu cwrs DET gyda'i gilydd, gall hyn fod yn ffordd dda o ddechrau Cynllun Gweithredu Anabledd. Gellir dyfeisio cwrs yn benodol ar gyfer sefydliad, gan ganolbwyntio ar faterion penodol. Caiff DET ei arwain gan hyfforddwyr anabl bob tro.

Efallai y caiff yr angen am ragor o hyfforddiant yn y categorïau canlynol ei nodi yn sgil cmryd rhan mewn cwrs Hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Anabl, neu drwy werthusiadau staff neu fonitro darpariaeth gwasanaeth:

**Hyfforddiant Cydraddoldeb i Bobl Fyddar** - Hwyluso dealltwriaeth o Ddiwylliant Pobl Fyddar a helpu sefydliadau i weithio tuag at sicrhau cydraddoldeb yn eu gwasanaethau.

**Hyfforddiant i diwtoriaid / arweinwyr gweithdai i sicrhau bod eu gweithdai'n hygyrch i bobl anabl** - Gellir cynllunio'r cyrsiau yn unol â briff penodol.

**Hyfforddiant ar nam penodol** - e.e. Ymarferoldeb gweithio gyda phobl ddall a phobl â nam ar eu golwg, neu bobl a chanddynt anableddau dysgu.

**Hyfforddiant anabledd i staff blaen tŷ a staff y swyddfa docynnau, stiwardiaid a gwirfoddolwyr** - Ymarferoldeb materion yn ymwneud â hygyrchedd lleoliadau a digwyddiadau.

## Allanfeydd brys i bobl a chyflogeion anabl

Mae hyfforddiant mewn gwagio adeiladau ar frys yn bodoli ond nid yw'n hawdd dod o hyd iddo. Dylai sefydliadau a chanddynt gyflogeion anabl sefydlu Cynlluniau Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng. Nod y rhain yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i bobl na allant adael yr adeilad heb gymorth er mwyn iddynt allu dianc i le diogel a rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i staff y lleoliad er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael bob amser.

Dylai pob lleoliad sydd ar agor i'r cyhoedd gynllunio ar gyfer symud pobl anabl o'r adeilad os bydd argyfwng.



Unusual Stage School - Celfyddydau Anabledd Cymru (llun: Keith Morris)

## Gwybodaeth Bellach

**Celfyddydau Anabledd Cymru**
www.disabilityartscymru.co.uk

# Monitro a Gwerthuso

## Monitro effeithiolrwydd y cynllun gweithredu

Yn aml ceir pryder ynghylch monitro nifer y bobl anabl sy'n rhan o brosiect, ac amharodrwydd i ofyn cwestiynau personol, ac mae hynny'n ddealladwy. Yn y rhan fwyaf o achosion ni ddylai fod angen gofyn am wybodaeth bersonol gan unigolion. Dyma rai ffyrdd o fonitro:

- Cofnodi nifer y ceisiadau am ddefnyddio cyfleusterau fel lleoedd parcio i'r anabl, gwasanaeth disgrifio clywedol, dolenni clywed, gwybodaeth ar fformat penodol, consesiynau i bobl anabl.
- Cofnodi cyfarfodydd / ymgynghoriadau rhwng eich sefydliad chi a sefydliadau pobl anabl neu unigolion anabl. Nodi pwyntiau gweithredu yn codi o'r cyfarfodydd.
- Dylai sefydliadau sy'n cynnal prosiectau sy'n cynnwys grwpiau o bobl anabl wybod faint o bobl sy'n mynychu.
- Mewn ffurflenni archebu ar gyfer cyrsiau neu weithdai dylid gofyn y cwestiwn 'A oes gennych unrhyw ofynion penodol o ran mynediad?' Gweler yr enghraifft o ffurflen archebu ar gyfer gweithdy ar tudalen 53. Cadwch gofnod o nifer y bobl sy'n gofyn am gyfleuster neu addasiadau penodol.
- Yn ystod gwerthusiadau blynyddol, dylid gofyn i staff fel mater o drefn a oes ganddynt unrhyw ofynion o ran mynediad, er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn fwy hygyrch. Dylid gofyn yr un cwestiwn ynghylch anghenion mynediad i bob aelod o'r bwrdd, aelodau o grwpiau cynghori a gwirfoddolwyr.
- Os bydd cyfleuster penodol ar gael fel rhan o fenter datblygu cynulleidfaoedd, efallai y bydd hyn yn gyfle da i fesur faint o bobl sy'n ei ddefnyddio. E.e. Cyfleuster negeseuon testun ar gyfer archebu tocynnau ar gyfer digwyddiad celfyddydol i bobl fyddar.

## Gwerthuso

Dylai pob agwedd ar wasanaethau'r sefydliad sy'n cynnwys pobl anabl gynnwys gwerthusiad sy'n hygyrch i'r bobl sy'n ymateb.

Gofynnwch i bobl beth yw'r ffordd sydd orau ganddynt o gwblhau gwerthusiad; dylai cymaint o opsiynau â phosibl fod ar gael.

Ystyriwch: gamera fideo, recordydd tâp, ffurflen werthuso ar wefan, galwad ffôn, gwerthusiad ar lafar mewn grŵp, gwerthusiad ar lafar un i un.

Sicrhewch fod yr iaith ar y ffurflen werthuso yn briodol ac yn hawdd i'w deall. Ceisiwch osgoi unrhyw jargon diangen.

Pan fyddwch yn gwerthuso, gofynnwch a oedd y prosiect neu'r digwyddiad yn hygyrch, ac a oes gan yr ymatebydd unrhyw sylwadau ynghylch hygyrchedd.

# Sefydliadau Pobl Anabl

**Action on Hearing Loss**
Gwybodaeth am faterion pobl anabl
4ydd Llawr, Tŷ Tudor, 16 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF1 9HB
Ffôn: 029 20 333 034 Ffacs: 029 20 333 035
Ffôn testun: 029 20 333 036
E: wales@hearingloss.org.uk
www.actiononhearingloss.org.uk

**Gwasanaethau cyfathrebu Action on Hearing Loss**
Ffôn: 0845 685 8000
Ffôn testun: 0845 685 8001
E-bost: communication.services@hearingloss.org.uk

**Pobl yn Gyntaf Cymru**
Llais unedig grwpiau hunan-eiriolaeth a phawb sydd ag anableddau dysgu yng Nghymru
41 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GS
Ffôn: 029 20 681 169 E: info@allwalespeople1st.co.uk
www.allwalespeople1st.co.uk

**Anabledd Powys**
Gwybodaeth, cymorth, cyngor, hyfforddiant
The Automobile Palace, Temple Street, Llandrindod, Powys LD1 5HL
Ffôn: 01597 824 059 Ffôn testun: 01597 825 784
E-bost: info@disabilitypowys.org.uk
www.disabilitypowys.org.uk

**Diverse Cymru**
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb
3ydd Llawr, Tŷ Alexandra, Cowbridge Road East, Caerdydd CF5 1JD
Ffôn: 029 20 368 888 ffacs; 029 20 368 887
e:info@diversecymru.org.uk www.diversecymru.org.uk

**Epilepsi Cymru**
Cyngor, gwybodaeth a chymorth
Tŷ Bradbury, 23 Salisbury Road, Wrecsam LL13 7AS
Ffôn: 01978 312 325 e: weabradbury@btconnect.com
www.public.epilepsy-wales.org.uk

**Anabledd Dysgu Cymru**
Gwybodaeth, cyngor a chymorth ar bob math o faterion sy'n ymwneud ag anableddau dysgu
41 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GG
Ffôn: 029 2068 1160 Ffacs: 029 2075 2149
E: enquiries@ldw.org.uk
www.ldw.org.uk

**Mencap Cymru**
Yn cynnal clybiau Gateway – sef clybiau cymdeithasol ar gyfer oedolion ag anawsterau dysgu
Uned 31, Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien,
Caerdydd CF14 5GF
Ffôn: 0808 808 1111 (Mencap Direct)
e: helpline.wales@mencap.org.uk
www.mencap.org.uk/wales

**Mind Cymru**
Cymdeithas Genedlaethol Iechyd Meddwl
3ydd Llawr, Tŷ Quebec, Castlebridge, 5-19 Cowbridge Road East,
Caerdydd CF11 9AB Ffôn: 029 2039 5123
E: contactwales@mind.org.uk
www.mind.org.uk

**Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) Cymru**
Gwybodaeth a digwyddiadau i blant byddar
4 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn / Ffacs: 029 2037 3474
E-bost: ndcswales@ndcs.org.uk www.ndcs.org.uk

**Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth**
Sefydliad sy'n hyrwyddo gwasanaethau o safon uchel ar gyfer pobl ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig
6-7 Village Way, Parc Busnes Greenmeadow Springs, Tongwynlais,
Caerdydd CF15 7NE
Ffôn: 029 20 629 312 Ffacs: 029 20 629 317 e:cymru@nas.org.uk
www.autism.org.uk

**Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) yng Nghymru**
Gwybodaeth am faterion yn ymwneud â phobl fyddar a phobl â nam ar eu golwg
Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD
Ffôn: 029 2045 0440 Ffacs: 029 2044 9550
E-bost: gwenda.fitzpatrick@rnib.org.uk www.rnib.org.uk

**RNID Cymru (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar)**
Gwybodaeth a digwyddiadau ar gyfer plant byddar
2 Llys Tŷ Nant, Treforgan, Caerdydd CF15 8LW
Ffôn: 029 20 373 474 Minicom: 029 20 811 861 Ffacs: 029 20 814 000
E-bost: ndcswales@ndcs.org.uk
www.ndcs.org.uk

**Cymdeithas Pobl Fyddar Gogledd Cymru**
Gwybodaeth, cymorth cyfathrebu, hyfforddiant
Uned 7/9 Canolfan Fusnes Conwy, Ffordd y Gyffordd, Cyffordd Llandudno,
Conwy LL31 9XX
Ffôn: 01492 563 470 Ffôn testun 01492 563 475
sms 07719 410 355
E: info@deafassociation.co.uk
www.deafassociation.btck.co.uk

**Sense Cymru**
Gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer pobl fyddar a dall
Tŷ Penderyn, 26 y Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP
Ffôn: 0300 330 9280 Ffôn testun: 0300 330 9282 Ffacs 0300 330 9281
E: cymruenquiries@sense.org.uk
www.sense.org.uk

**SPIT (Perfformiadau Theatr ag Iaith Arwyddion)**
6 Thirlmere Drive, Lymm, Cheshire, WA13 9PE
www.spit.org.uk

**Stagetext**
Perfformiadau theatr â chapsiynau
Y Llawr 1af, 54 Commercial Street, Llundain E1 6LT
Ffôn: 020 7377 0540 Ffacs: 020 7247 5622
www.stagetext.org

**Cyngor Pobl Anabl y Deyrnas Unedig (UKDPC)**
Hyrwyddo cydraddoldeb a chyfranogaeth lawn i bobl anabl
Swyddfa gofrestredig: 27 Old Gloucester Street, Llundain WC1N 3AX
Ffôn poced 07792 538 208 e:info@ukdpc.net
www.ukdpc.net

**Vocaleyes**
Perfformiadau â disgrifiad sain
Y Llawr 1af, 54 Commercial Street, Llundain E1 6LT
Ffôn: 020 7375 1043 E-bost: enquiries@vocaleyes.co.uk
www.vocaleyes.co.uk

**Cyngor Cymru i Bobl Ddall**
Gwybodaeth am faterion pobl ddall, hyfforddiant, gwybodaeth mewn Braille ac ar gasetiau sain
Yr 2il Lawr, Tŷ Hallinans, 22 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TD
Ffôn: 029 2047 3954 E: mailto:staff@wcb-ccd.org.uk
www.wcb-ccd.org.uk

**Cyngor Cymru i Bobl Fyddar**
Gwybodaeth am faterion pobl fyddar, asiantaeth ddehongli
Tŷ Glenview, Courthouse Street, Pontypridd CF37 1JY
Ffôn: 01443 485 687 Ffacs: 01443 408 555 Ffôn testun 01443 485686
E: mail@wcdeaf.org.uk
www.wcdeaf.org.uk

# Sefydliadau'r Celfyddydau Anabledd

## Cymru

**Celfyddydau Anabledd Cymru**
Datblygu a hybu cydraddoldeb yn y celfyddydau ar gyfer pobl anabl
Sbectrwm, Bwlch Road, y Tyllgoed, Caerdydd CF5 3EF
Ffôn: 029 2055 1040
E: post@dacymru.com
www.disabilityartscymru.co.uk

## Lloegr

**Arcadea**
Cydraddoldeb ym maes y Celfyddydau, Diwylliant ac Anabledd
39 Pilgrim Street, Newcastle, NE1 6QE
Ffôn: 0191 222 0708 e: info@arcadea.org
www.arcadea.org

**DaDaFest**
Asiantaeth Celfyddydau Anabledd a Byddar
The Bluecoat, School Lane, Lerpwl, L1 3BX
Ffôn: 0151 707 1733 mobile 07436 536 200 (for texts only)
E: info@dadafest.co.uk
www.dadafest.co.uk

**DASh (Celfyddydau Anabledd Sir Amwythig)**
5 Belmont, Amwythig, Sir Amwythig SY1 1TE
Ffôn:01743 272 939 e: info@dasharts.org
wwwdasharts.org

**Celfyddydau Anabledd Ar Lein**
Trawsnewid a chyfoethogi'r celfyddydau a diwylliant
E: trish@disabilityartsonline.co.uk
www.disabilityartsonline.org.uk

**Fforwm Celfyddydau Anabledd Llundain**
22 Waterson Street, Llundain E2 8HE
Ffôn: 020 7739 1133
E-bost ar gyfer ymholiadau cyffredinol: info@ldaf.org  www.ldaf.org
E-bost cylchgrawn ADC: adc@ldaf.org

**Casgliad ac Archif Cenedlaethol y Celfyddydau Anabledd**
E: ndacacic@gmail.com
wwwndaca.org.uk

**Shape**
Datblygu'r celfyddydau ar sail pobl anabl
Stiwdios Deane House, 27 Greenwood Place, Llundain, NW5 1LB
Ffôn: 020 7424 7330 Minicom: 020 7424 7368 Ffacs: 0845 521 3458
E: info@shapearts.org.uk
www.shapearts.org.uk

## Gogledd Iwerddon

**Fforwm y Celfyddydau ac Anabledd**
Y Llawr Gwaelod, Cathedral Quarter Workshops, 109-113, Royal Avenue, Belffast BT1 1FF
Ffôn: 028 9023 9450 Ffacs: 028 9024 7770 E: info@adf.ie
www.adf.ie

## Gweriniaeth Iwerddon

**Celfyddydau ac Anabledd Iwerddon**
Y 4ydd Llawr, Canolfan Sean O'Casey, St Mary's Road North, East Wall,
Dulyn 3, Gweriniaeth Iwerddon
Ffôn: +353(0)1 8509 002 Ffacs: Ffôn: +353(0)1 8509 037
E: info@adiarts.ie
www.adiarts.ie